

Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (sail-2008)

Adroddiad Awdurdodau Lleol



Pwyntiau cysylltu

Cymru

Yn achos ymholiadau am ystadegau cysylltwch â'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol:

Ffôn: 029 2082 3332

E-bost: **stats.info.desk@wales.gsi.gov.uk**

Minicom: 029 2082 3280

Ffacs: 029 2082 5350

Cyfeiriad: Uned Cyhoeddiadau Ystadegol
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol,
Llywodraeth Cynulliad Cymru,
Parc Cathays
CAERDYDD, CF10 3NQ

Gallwch ddod o hyd i Ystadegau ar gyfer Cymru ar y rhyngwrd

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Y Deyrnas Unedig

Yn achos ymholiadau ystadegol, cysylltwch â'r

Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffôn: 0845 601 3034

Ymholiadau yng Nghymraeg:

01633 813381

Minicom: 01633 812399

E-bost: **info@statistics.gov.uk**

Ffacs: 01633 652747

Cyfeiriad: Canolfan Cysylltiad Cwsmer,
Ystafell 1.015,
Swyddfa Ystadegau Gwladol,
Ffordd Caerdydd,
Casnewydd, NP10 8XG

Gallwch hefyd ddod o hyd i Ystadegau Gwladol ar y rhyngwrd

www.statistics.gov.uk

Cyhoeddiad Ystadegau Gwladol

Cynhyrchir ystadegau swyddogol sy'n dwyn logo Ystadegau Gwladol i safonau proffesiynol uchel a nodir yng Nghod Ymarfer Ystadegau Gwladol. Maent yn cael eu hadolygu yn rheolaidd o safbwynt sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y cwsmer. Fe'u cynhyrchir yn rhydd rhag unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

© Hawlfraint y Goron 2010

Cyhoeddwyd gyntaf 2010

ISBN 978 0 7504 5794 1

Llywodraeth Cynulliad Cymru

WAG10-10343

F3971011

Gellir dyblygu darnau byr o'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio mapiau ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell yn llawn. Dylid cyfeirio ceisiadau am ddyblygu mapiau a darnau hirach at

Yr Uned Hawlfraint,
Gwasg Ei Mawrhydi,
St Clements House,
2-16 Colegate,
Norwich,
NR3 1BQ

Seilir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r Hawlfraint y Goron a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif Trwydded GD272221.

Yn achos ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â'r

Ffôn: 029 2082 3332

E-bost: **stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk**

I archebu copïau ychwanegol o'r cyhoeddiad hwn, galwch yr Uned Cyhoeddiadau Ystadegol ar 029 2082 3332.

Cynnwys

Pennod	Tudalen
Cyflwyniad	3
Trosolwg o'r Canlyniadau	7
Ynys Môn	19
Gwynedd	27
Conwy	35
Sir Ddinbych	43
Sir y Fflint	51
Wrecsam	59
Powys	67
Ceredigion	75
Sir Benfro	83
Sir Gaerfyrddin	91
Abertawe	99
Castell-Nedd Port Talbot	107
Pen-y-bont ar Ogwr	115
Bro Morgannwg	123
Caerdydd	131
Rhondda Cynon Taf	139
Merthyr Tudful	147
Caerffili	155
Blaenau Gwent	163
Tor-faen	171
Sir Fynwy	179
Casnewydd	187
Gwybodaeth am Ansawdd	195
Gwybodaeth Bellach	199

Cyflwyniad

Ar Fai 27ain 2010, cafodd amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer y 22 ardal awdurdod unedol yng Nghymru eu cyhoeddi.

Mae diddordeb mawr mewn data poblogaeth ac ymfudiad ar gyfer Cymru, ac felly mae galw cryf am amcanestyniadau ar lefel awdurdodau lleol. Mae angen i'r rheiny sy'n cynllunio at y dyfodol, er mwyn darparu gwasanaethau a helpu ffurfio polisiau cynaliadwy, ystyried y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn darparu amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau ac ymfudiad.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiadau manwl o'r amcanestyniadau poblogaeth ar ffurf siartiau, tablau a thestun ar gyfer pob awdurdod lleol.

Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o gyfres o gyhoeddiadau ar yr amcanestyniadau poblogaeth llywodraeth leol. Mae Adroddiad Cryno hefyd wedi'i gyhoeddi sy'n esbonio beth yw amcanestyniadau poblogaeth, y ffordd yr aed ati a'r dulliau cyffredinol a ddefnyddiwyd. Mae hyn yn cynnwys adran gryno sy'n cymharu ac yn cyferbynnu patrymau ar draws yr holl awdurdodau lleol. Mae taflen ganllaw fer ar yr amcanestyniadau hefyd wedi cael ei chyhoeddi, ynghyd â rhestr o gwestiynau cyffredin. Mae'r rhain ar gael ar dudalen we'r amcanestyniadau poblogaeth:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data manwl hefyd wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan StatsWales. Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ar gael ar StatsWales:

www.statswales.wales.gov.uk

Nodwch yn nhestun bob pennod fod y data poblogaeth wedi cael ei dalgrynnu i'r cant agosaf, tra bod y data genedigaethau, marwolaethau ac ymfudiad wedi eu talgrynnu i'r degfed agosaf.

Noder nad yw pob siart yn dechrau ar 0, felly dylid cymryd gofal pan yn gwneud cymariaethau.

Byddem yn croesawu adborth ar gynnwys a chyflwyniad yr adroddiad yma. I ddarparu adborth neu am ymholiadau cyffredinol, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

e-bost: **stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk**

ffôn: Llinell Ymholiadau Cyffredinol 029 2082 3332

Ystadegau Demograffi, Treftadaeth a Chydraddoldeb

Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Trosolwg o'r Canlyniadau

Trosolwg o'r Canlyniadau

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o brif ganlyniadau amcanestyniadau'r awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2008 ar gyfer y 15 mlynedd gyntaf yng nghyfnod yr amcanestyniadau (canol 2008 i ganol 2023). Mae atodiad ar ddiwedd yr adran hon sy'n cyflwyno canlyniadau cyfnod 25 mlynedd cyfan yr amcanestyniad (hyd at ganol 2033). Noder mai amcanestyniadau ar sail tueddiadau yw'r rhain ac y byddant yn fwy ansicr y pellaf ymlaen y byddant yn mynd.

Cyfanswm y Boblogaeth

Tabl 1: Cyfanswm y boblogaeth yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Ynys Môn	68,800	69,900	71,000	71,900
Gwynedd	118,600	119,700	121,300	123,200
Conwy	111,400	113,000	114,700	116,300
Sir Ddinbych	96,700	99,800	103,100	106,200
Sir y Fflint	149,700	151,200	152,400	153,100
Wrecsam	132,700	136,900	141,100	145,000
Powys	131,700	135,400	138,900	142,200
Ceredigion	76,800	78,600	80,500	82,300
Sir Benfro	117,600	120,500	123,500	126,100
Sir Gaerfyrddin	180,700	187,400	194,300	200,900
Abertawe	230,100	237,400	246,100	255,300
Castell-Nedd Port Talbot	137,600	140,400	143,500	146,500
Pen-y-Bont ar Ogwr	133,900	138,000	142,100	146,000
Bro Morgannwg	124,100	128,400	132,800	137,300
Caerdydd	330,500	353,900	381,100	410,500
Rhondda Cynon Taf	234,400	237,200	240,300	243,200
Merthyr Tudful	55,600	56,200	57,000	57,600
Caerffili	172,400	175,000	177,700	179,900
Blaenau Gwent	68,800	69,400	70,300	71,100
Tor-faen	90,600	90,700	90,800	90,700
Sir Fynwy	87,800	89,500	91,000	92,500
Casnewydd	139,700	142,100	145,200	148,400

Tabl 2: Newid mewn canran ers 2008 yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	2013	2018	Canran 2023
Ynys Môn	2	3	5
Gwynedd	1	2	4
Conwy	1	3	4
Sir Ddinbych	3	7	10
Sir y Fflint	1	2	2
Wrecsam	3	6	9
Powys	3	5	8
Ceredigion	2	5	7
Sir Benfro	3	5	7
Sir Gaerfyrddin	4	8	11
Abertawe	3	7	11
Castell-Nedd Port Talbot	2	4	7
Pen-y-Bont ar Ogwr	3	6	9
Bro Morgannwg	3	7	11
Caerdydd	7	15	24
Rhondda Cynon Taf	1	3	4
Merthyr Tudful	1	3	4
Caerffili	2	3	4
Blaenau Gwent	1	2	3
Tor-faen	0	0	0
Sir Fynwy	2	4	5
Casnewydd	2	4	6

Rhwng canol 2008 a chanol 2023, yr amcanestyniad yw y bydd cynnydd ym mhoblogaeth mwyafrif yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ôl yr amcanestyniad, bydd cynnydd o 10 y cant neu fwy rhwng canol 2008 a chanol 2023 mewn pum awdurdod lleol.

Rhagwelir y bydd poblogaeth Tor-faen yn aros mwy neu lai'n wastad rhwng canol 2008 a chanol 2023. Ym mhob blwyddyn yn yr amcanestyniad, bydd tua 100 o bobl yn symud allan o Dor-faen nag yn symud i mewn. Rhagwelir y bydd newid naturiol yn cynyddu i fwy na 100 o enedigaethau nag o farwolaethau yn Nhor-faen i ddechrau, ond rhagwelir y bydd hyn yn gostwng islaw 100 o 2019/20 ymlaen, gan arwain at newid net sy'n amrywio o amgylch sero ar gyfer blynyddoedd cyntaf yr amcanestyniad. Mae hyn yn golygu y bydd poblogaeth Tor-faen yn aros yn weddol wastad.

Rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu o 330,500 yng nghanol 2008 i 353,900 yng nghanol 2013 (cynnydd o 7 y cant). Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu i 381,100 erbyn canol 2018, gyda phoblogaeth Caerdydd yn codi i 410,500 erbyn canol 2023 (cynnydd o 24 y cant ers canol 2008). Mae hyn yn adlewyrchu newidiadau ym mhoblogaeth Caerdydd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cynnydd hwn yn y boblogaeth yn bennaf yn sgil ymfudo net i Gaerdydd ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad. Hefyd rhagwelir y bydd tua 2,000 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau yng Nghaerdydd yn 2008/09, yn cynyddu i 3,500 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau erbyn 2022/23, yn bennaf yn sgil y cynnydd yn lefel y menywod o oedran beichiogi.

Genedigaethau, Marwolaethau a Newid Naturiol

Tabl 3: Nifer y genedigaethau, marwolaethau a newid naturiol yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	2008/09			2012/13			2022/23		
	Genedigaethau	Marwolaethau	Newid Naturiol	Genedigaethau	Marwolaethau	Newid Naturiol	Genedigaethau	Marwolaethau	Newid Naturiol
Ynys Môn	800	800	-	800	700	-	700	800	-100
Gwynedd	1,300	1,300	-100	1,300	1,300	-	1,400	1,200	100
Conwy	1,100	1,400	-300	1,100	1,400	-300	1,100	1,400	-300
Sir Ddinbych	1,100	1,100	-	1,100	1,100	-	1,100	1,100	-
Sir y Fflint	1,800	1,400	400	1,700	1,300	400	1,600	1,400	200
Wrecsam	1,700	1,300	400	1,700	1,300	400	1,600	1,300	300
Powys	1,300	1,400	-200	1,200	1,400	-200	1,200	1,600	-300
Ceredigion	700	700	-100	700	700	-	700	800	-100
Sir Benfro	1,300	1,300	-	1,300	1,300	-	1,200	1,300	-100
Sir Gaerfyrddin	2,000	2,100	-100	2,000	2,000	-	2,000	2,100	-100
Abertawe	2,700	2,300	400	2,900	2,200	600	3,100	2,200	900
Castell-Nedd Port Talbot	1,600	1,500	100	1,600	1,400	100	1,500	1,400	100
Pen-y-Bont ar Ogwr	1,600	1,400	200	1,600	1,400	200	1,600	1,400	100
Bro Morgannwg	1,500	1,200	300	1,500	1,200	300	1,500	1,200	300
Caerdydd	4,600	2,700	2,000	5,100	2,500	2,500	5,900	2,500	3,500
Rhondda Cynon Taf	2,900	2,500	400	2,800	2,400	500	2,700	2,300	400
Merthyr Tudful	800	600	200	800	600	200	700	600	100
Caerffili	2,200	1,700	500	2,100	1,700	500	2,000	1,700	300
Blaenau Gwent	900	800	100	900	800	100	800	700	100
Tor-faen	1,100	1,000	100	1,000	900	100	1,000	900	-
Sir Fynwy	800	900	-	800	900	-100	800	900	-100
Casnewydd	2,000	1,300	600	2,000	1,300	700	2,000	1,200	800

Newid Naturiol

Yn 2007/08, roedd mwy o enedigaethau nag o farwolaethau mewn 13 awdurdod lleol yng Nghymru.

Dyma'r amcanestyniad:

- bydd mwy o enedigaethau nag o farwolaethau mewn 13 awdurdod lleol yn 2012/13, a bydd cydbwysedd rhwng genedigaethau a marwolaethau mewn 6 awdurdod lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin);
- bydd mwy o enedigaethau nag o farwolaethau mewn 13 awdurdod lleol yn 2022/23 a bydd cydbwysedd rhwng genedigaethau a marwolaethau mewn 2 awdurdod lleol (Sir Ddinbych a Thor-faen).

Bydd y newid naturiol mwyaf positif yng Nghaerdydd yn 2008/09, 2012/13 a 2022/23, yn bennaf yn sgil niferoedd uchel o enedigaethau. Rhagwelir mai yng Nghonwy y bydd y newid naturiol mwyaf negyddol (300 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau) yn 2008/09, 2012/13 a 2022/23.

Genedigaethau

Rhwng 2008/09 a 2022/23, rhagwelir mai yng Nghaerdydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf y bydd y niferoedd o enedigaethau uchaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dyma'r awdurdodau lleol mwyaf. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn Abertawe yn cynyddu o 2,700 yn 2008/09 i 3,100 yn 2022/23, gyda nifer y genedigaethau yng Nghaerdydd yn cynyddu o 4,600 yn 2008/09 i 5,900 yn 2022/23. Bydd hyn yn bennaf yn sgil cynnydd yn nifer y menywod o oedran beichiogi, a fydd yn bennaf o ganlyniad i fewnfudo sylweddol gan bobl yn y grŵp oedran hwn. Rhagwelir y bydd mewnfudo net sylweddol o fenywod 15-49 oed i mewn i Gaerdydd, sef tua 1,500 pob blwyddyn.

Rhagwelir mai yn Ynys Môn, Ceredigion a Merthyr Tudful y bydd y niferoedd o enedigaethau isaf, sef oddeutu rhwng 700 ac 800 o enedigaethau rhwng 2008/09 a 2022/23. Rhagwelir y bydd y lefel genedigaethau yng Ngheredigion yn aros yn eithaf gwastad, a gwelir y lefel genedigaethau yn gostwng rhwng 2012/13 a 2022/23 yn Ynys Môn a Merthyr Tudful. Mae'r gostyngiad hwn yn sgil gostyngiad yn nifer y menywod o oedran beichiogi yn yr awdurdodau lleol.

Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb

Tabl 4: Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	2008/09	2012/13	2022/23
Ynys Môn	2.19	2.12	2.10
Gwynedd	1.80	1.74	1.73
Conwy	2.19	2.12	2.10
Sir Ddinbych	2.26	2.18	2.17
Sir y Fflint	2.11	2.04	2.03
Wrecsam	2.08	2.01	1.99
Powys	2.22	2.14	2.13
Ceredigion	1.59	1.54	1.52
Sir Benfro	2.22	2.15	2.13
Sir Gaerfyrddin	2.06	1.99	1.98
Abertawe	1.86	1.80	1.78
Castell-Nedd Port Talbot	1.99	1.93	1.91
Pen-y-Bont ar Ogwr	2.13	2.06	2.04
Bro Morgannwg	2.14	2.06	2.05
Caerdydd	1.73	1.67	1.66
Rhondda Cynon Taf	1.91	1.84	1.83
Merthyr Tudful	2.31	2.23	2.22
Caerffili	2.05	1.98	1.97
Blaenau Gwent	2.10	2.03	2.02
Tor-faen	2.00	1.93	1.92
Sir Fynwy	2.16	2.09	2.07
Casnewydd	2.30	2.22	2.20

Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb yw nifer cyfartalog y plant a fyddai'n cael eu geni i bob menyw os byddai menywod yn profi'r cyfraddau ffrwythlondeb penodol i'w hoedran yn y flwyddyn dan sylw drwy gydol eu cyfnod planta.

Mae'r Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol yn dangos gostyngiad yn y Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb ledled Cymru o 1.93 yn 2008/09 i 1.85 erbyn 2013/14, ac yna'n aros yn wastad tan 2032/33.

Rhwng 2008/09 a 2012/13, disgwylir i'r Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb ostwng ym mhob awdurdod lleol. Rhwng 2012/13 a 2022/23, mae dal disgwyl i'r Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb ostwng ym mhob awdurdod lleol, ond ar gyfradd arafach nag yn y blynyddoedd blaenorol. O edrych ymhellach ymlaen, gwelir bod disgwyl i lefelau'r Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb aros yn eithaf gwastad ym mhob awdurdod lleol o 2022/23 ymlaen.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08 ar gyfer Cymru a Lloegr) yw'r nifer fras o blant i bob menyw y mae ei hangen i'r boblogaeth adnewyddu'i hun yn llwyr yn yr hirdymor gyda chyfraddau marwolaeth gwastad a heb unrhyw ymfudo. Drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, amcanir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb 13 awdurdod lleol yng Nghymru yn cyfateb â'r ffrwythlondeb lefel adnewyddu neu'n uwch am flwyddyn neu fwy.

Yr awdurdod lleol â'r Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb isaf rhwng 2008/09 a 2022/23 yw Ceredigion, sy'n dangos pwysigrwydd mewnfudo i'r awdurdod lleol i gynnal ei boblogaeth.

Er gwaethaf niferoedd sylweddol o enedigaethau yng Ngaerdydd rhwng 2008/09 a 2022/23, mae ei Chyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb islaw'r ffrwythlondeb lefel adnewyddu, gan ostwng o 1.73 yn 2008/09 i 1.66 yn 2022/23.

Gwelir mai'r awdurdodau lleol â'r lefelau Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb isaf yw Ceredigion, Caerdydd, Gwynedd ac Abertawe. Mae niferoedd cymharol uchel o fyfyrwyr yn yr awdurdodau lleol hyn, sydd â lefelau ffrwythlondeb is, sy'n arwain ar Gyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb isel i'r awdurdodau lleol hyn.

Marwolaethau

Yn gyffredinol, yr amcanestyniad ledled Cymru yw y bydd y cyfraddau marwolaethau ym mhob oedran yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Fodd bynnag, os yw'r cyfraddau marwolaeth yn gostwng mae hyn yn golygu y bydd mwy o bobl yn byw i oedran hŷn (sydd â chyfraddau marwolaeth uwch), ac felly rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau'n dechrau cynyddu o oddeutu 2018/19.

Rhagwelir mai ym Mhowys y bydd y cynnydd mwyaf yng nghanran y marwolaethau rhwng 2008/09 a 2022/23, gyda'r niferoedd yn cynyddu o 1,400 o farwolaethau yn 2012/13 i 1,600 o farwolaethau yn 2022/23, yn bennaf yn sgil cynnydd y boblogaeth o bobl hŷn ym Mhowys. Disgwylir i'r boblogaeth 75 ac yn hŷn ym Mhowys gynyddu o 13,700 yng nghanol 2008 i 22,800 yng nghanol 2023.

Disgwyliad oes adeg geni

Tabl 5: Disgwyliad oes adeg geni yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	2008/09	2012/13	2022/23
Ynys Môn	80.6	81.5	83.0
Gwynedd	80.3	81.2	82.7
Conwy	80.1	81.0	82.5
Sir Ddinbych	80.3	81.2	82.8
Sir y Fflint	80.4	81.3	82.8
Wrecsam	80.1	81.1	82.6
Powys	81.5	82.4	83.8
Ceredigion	82.0	82.9	84.2
Sir Benfro	80.5	81.5	83.0
Sir Gaerfyrddin	80.2	81.1	82.7
Abertawe	80.4	81.3	82.8
Castell-Nedd Port Talbot	79.6	80.6	82.2
Pen-y-Bont ar Ogwr	79.6	80.6	82.2
Bro Morgannwg	80.7	81.6	83.1
Caerdydd	80.0	80.9	82.4
Rhondda Cynon Taf	79.0	79.9	81.6
Merthyr Tudful	77.9	78.9	80.7
Caerffili	79.1	80.1	81.7
Blaenau Gwent	78.2	79.2	81.0
Tor-faen	79.8	80.8	82.3
Sir Fynwy	81.6	82.5	83.9
Casnewydd	79.7	80.7	82.3

Disgwyliad oes adeg geni yw'r oed y disgwylir i berson fyw os byddant yn profi cyfraddau marwolaeth eu hawdurdod lleol adeg eu geni, trwy gydol eu bywyd. Bydd disgwyliad oes unigolyn felly yn newid wrth i gyfraddau marwolaeth newid trwy gydol ei fywyd.

Ledled Cymru, rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad a rhagwelir y bydd cynnydd parhaus yn y disgwyliad oes ym mhob awdurdod lleol drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Ym mhob un o'r blynyddoedd dethol, yn ôl yr amcanestyniad bydd y disgwyliad oes isaf ym Merthyr Tudful a'r uchaf yng Ngheredigion. Rhwng 2008/09 a 2022/23, rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn cynyddu rhwng 77.9 a 82.0 (Merthyr Tudful a Cheredigion yn y drefn honno) i 80.7 a 84.2 (Merthyr Tudful a Cheredigion yn y drefn honno).

Er y rhagwelir mai ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful, Caerffili a Rhondda Cynon Taf y bydd y disgwyliad oes isaf dros y cyfnod tan 2022/23, rhagwelir mai dyma ble bydd y cynnydd mwyaf mewn disgwyliad oes.

Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r gostyngiadau a ddisgwylir yn y cyfraddau marwolaeth a fynegir yn yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol. Defnyddiwyd y rhain yn yr amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol i ddarogan newidiadau i'r cyfraddau marwolaeth yn y dyfodol.

Ymfudo

Mae lefel wastad wedi cael ei rhagdybio ar gyfer ymfudo i mewn ac allan ar gyfer pob awdurdod lleol ym mhob blwyddyn yn yr amcanestyniad, yn seiliedig ar yr ymfudo i mewn ac allan o bob awdurdod lleol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae amcanestyniadau'r awdurdodau lleol yn seiliedig ar dueddiadau, ac maent ond yn awgrymu'r hyn allai ddigwydd pe bai'r tueddiadau diweddar yn parhau.

Tabl 6: Lefelau ymfudo a ragdybir ar gyfer cyfnod yr amcanestyniad yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	Cyfanswm Ymfudo			Ymfudiad Mewnol			Ymfudiad Rhyngwladol		
	Mewn	Allan	Net	Mewn	Allan	Net	Mewn	Allan	Net
Ynys Môn	2,500	2,300	200	2,300	2,100	200	100	100	-
Gwynedd	5,900	5,600	300	5,300	5,100	100	600	500	100
Conwy	5,200	4,600	600	4,900	4,200	700	300	400	-100
Sir Ddinbych	4,900	4,200	600	4,600	4,000	700	200	200	-
Sir y Fflint	4,900	5,000	-100	4,700	4,700	-	200	300	-100
Wrecsam	4,300	3,900	400	3,900	3,600	300	500	300	100
Powys	5,900	5,000	900	5,700	4,800	900	300	300	-
Ceredigion	6,700	6,300	400	5,900	5,800	100	800	500	300
Sir Benfro	4,600	4,000	600	4,200	3,600	600	400	300	-
Sir Gaerfyrddin	6,800	5,400	1,400	6,500	5,100	1,300	300	300	100
Abertawe	10,500	9,500	1,000	8,900	8,500	400	1,600	1,000	600
Castell-Nedd Port Talbot	4,100	3,700	500	4,100	3,500	600	100	200	-100
Pen-y-Bont ar Ogwr	4,300	3,700	600	4,100	3,400	700	200	200	-100
Bro Morgannwg	5,500	4,900	600	5,100	4,600	500	300	300	-
Caerdydd	23,200	20,700	2,400	17,700	17,900	-300	5,500	2,800	2,700
Rhondda Cynon Taf	7,000	6,900	100	6,500	6,300	300	500	600	-100
Merthyr Tudful	1,400	1,500	-	1,300	1,400	-100	100	100	-
Caerffili	4,500	4,500	100	4,400	4,200	200	100	200	-100
Blaenau Gwent	1,700	1,600	-	1,600	1,600	-	100	100	-
Tor-faen	2,400	2,500	-100	2,300	2,400	-	-	100	-100
Sir Fynwy	4,500	4,100	400	4,400	3,900	400	200	200	-100
Casnewydd	5,400	5,600	-200	4,900	5,000	-200	500	600	-

Ar gyfer yr amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, caiff ymfudo ei ystyried fel pobl yn symud i mewn ac allan o awdurdod lleol.

Caiff ymfudo i mewn neu allan o'r DU ei ddiffinio fel ymfudo mewnol a chaiff ei gofnodi ar gyfer pob symudiad adeg ymfudo.

Caiff ymfudo i wledydd tramor neu o wledydd tramor ei ystyried fel ymfudo rhyngwladol. Fodd bynnag, caiff person ei ystyried fel mewnfudwr rhyngwladol dim ond os yw'n bwriadu ymfudo am gyfnod o 12 mis neu fwy. Caiff mewnfudwyr sy'n bwriadu aros am lai na 12 mis adeg yr ymfudo eu hystyried yn fewnfudwyr tymor byr ac ni chânt eu cynnwys yn y ffigurau ymfudo. Gwneir addasiad bob blwyddyn ar gyfer pobl sy'n newid hyd eu cyfnod aros o'u bwriad adeg ymfudo (llai na 12 mis i fwy na 12 mis neu'r ffordd arall).

Rhagwelir y canlynol ym mhob blwyddyn o gyfnod yr amcanestyniad:

- Bydd mwy o bobl yn symud i mewn i fwyafrif (17) yr awdurdodau lleol yng Nghymru nag y bydd yn symud allan. Bydd mewnfudo net Merthyr Tudful a Blaenau Gwent yn sero yn fras, gyda mwy o bobl yn symud allan nag yn symud i mewn i Sir y Fflint, Torfaen a Chasnewydd;
- Bydd y cynnydd net mwyaf o fewnfudwyr yn digwydd yn Nghaerdydd (tua 2,400 yn fwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael bob blwyddyn).

Gan ystyried ymfudo **o fewn y DU** (ymfudo mewnol) yn unig, rhagwelir y canlynol ym mhob flwyddyn yr amcanestyniad:

- Bydd y nifer fwyaf o fewnfudwyr i mewn ac allan o'r DU yng Nghaerdydd (17,700 a 17,900 yn y drefn honno), ond bydd yn profi mewnfudo net negyddol yn y DU (tua 300 yn fwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd bob blwyddyn);
- Bydd y nifer leiaf o fewnfudwyr i mewn ac allan o'r DU ym Merthyr Tudful (1,300 a 1,400 yn y drefn honno);
- Yn Sir Gaerfyrddin y bydd y gwahaniaeth mwyaf rhwng nifer y bobl sy'n cyrraedd a nifer y bobl sy'n gadael (cynnydd net o 1,300 o bobl y flwyddyn).

O ran ymfudo **o wledydd tramor** (ymfudo rhyngwladol) rhagwelir y canlynol ym mhob blwyddyn o'r amcanestyniad:

- Yng Nghaerdydd y bydd y nifer fwyaf o ymfudwyr rhyngwladol i mewn ac allan bob blwyddyn (5,500 a 2,800 yn y drefn honno), yn fwyaf tebygol yn sgil nifer fawr o fyfyrwyr yn mewnfudo o dramor i ddod i Brifysgol Caerdydd;
- Ceir prifysgolion yn Abertawe a Cheredigion hefyd, a rhagwelir mai dyma lle bydd yr ail a'r trydydd lefel uchaf o fewnfudo net, sef 600 a 300 yn y drefn honno;
- Yn Nhor-faen y bydd y nifer leiaf o fewnfudwyr rhyngwladol (tua 40 o bobl) a Blaenau Gwent fydd yn profi'r nifer isaf o fewnfudwyr i wledydd tramor (tua 70 o bobl);
- Yng Nghaerffili y bydd y lefel net uchaf o allfudo (tua 150 yn fwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd bob blwyddyn);
- yng Nghaerdydd fydd y cynnydd net mwyaf o fewnfudwyr (tua 2,700 yn fwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael bob blwyddyn).

O gymharu cyfanswm y ffigurau ymfudo net ar gyfer pob awdurdod lleol gyda'r twf cyffredinol yn y boblogaeth, gwelir mai ymfudo yw un o'r prif resymau dros newid yn y boblogaeth, ac mae'n dangos pwysigrwydd y rhagdybiaeth ymfudo.

Yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe y ceir y nifer fwyaf o bobl yn symud i'r awdurdod o'i chymharu â nifer y bobl yn symud i mewn, gyda chynnydd net o 2,400, 1,400 a 1,000 o bobl y flwyddyn yn y drefn honno. Yn yr awdurdodau lleol hyn hefyd y ceir y twf mwyaf yn y boblogaeth rhwng canol 2008 a chanol 2023, sy'n awgrymu bod mewnfudo net uchel yn rheswm allweddol dros y cynnydd yn y boblogaeth.

Fodd bynnag, mae proffil oedran y mewnfudwyr yn ffactor pwysig i'w ystyried, oherwydd gall niferoedd sylweddol o fenywod o oedran beichiogi yn symud i'r awdurdod lleol arwain at gynnydd yn niferoedd y genedigaethau a thwf pellach yn y boblogaeth. Pe bai proffil oedran y mewnfudwyr yn hŷn, er enghraifft, efallai ni fyddai effaith mewnfudo mor arwyddocaol.

Atodiad A

Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno rhai tablau sy'n dangos canlyniadau'r amcanestyniadau hyd at ganol 2033. Fodd bynnag, noder bod yr amcanestyniadau yn fwy ansicr y pellaf ymlaen y maent yn mynd. Mae'r amcanestyniadau awdurdodau lleol hyn sy'n seiliedig ar 2008 yn seiliedig ar dueddiadau blaenorol ar gyfer genedigaethau, marwolaethau ac ymfudo, ac maent ond yn awgrymu'r hyn allai ddigwydd pe bai'r tueddiadau blaenorol hyn yn parhau. Nid ydynt yn rhoi lle i effeithiau polisiâu llywodraeth leol neu ganolog ar lefelau, dosbarthiad a newid poblogaeth yn y dyfodol.

Tabl 7: Cyfanswm Poblogaeth yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol hyd at ganol 2033

	2008	2013	2018	2023	2028	2033
Ynys Môn	68,800	69,900	71,000	71,900	72,400	72,600
Gwynedd	118,600	119,700	121,300	123,200	124,900	126,000
Conwy	111,400	113,000	114,700	116,300	117,600	118,300
Sir Ddinbych	96,700	99,800	103,100	106,200	108,900	111,000
Sir y Fflint	149,700	151,200	152,400	153,100	153,100	152,100
Wrecsam	132,700	136,900	141,100	145,000	148,500	151,500
Powys	131,700	135,400	138,900	142,200	144,800	146,300
Ceredigion	76,800	78,600	80,500	82,300	83,700	84,600
Sir Benfro	117,600	120,500	123,500	126,100	128,000	129,300
Sir Gaerfyrddin	180,700	187,400	194,300	200,900	206,700	211,600
Abertawe	230,100	237,400	246,100	255,300	264,000	272,100
Castell-Nedd Port Talbot	137,600	140,400	143,500	146,500	148,900	150,900
Pen-y-Bont ar Ogwr	133,900	138,000	142,100	146,000	149,400	152,100
Bro Morgannwg	124,100	128,400	132,800	137,300	141,200	144,600
Caerdydd	330,500	353,900	381,100	410,500	439,700	468,200
Rhondda Cynon Taf	234,400	237,200	240,300	243,200	245,200	246,400
Merthyr Tudful	55,600	56,200	57,000	57,600	57,900	58,100
Caerffili	172,400	175,000	177,700	179,900	181,300	181,900
Blaenau Gwent	68,800	69,400	70,300	71,100	71,400	71,400
Tor-faen	90,600	90,700	90,800	90,700	90,100	89,200
Sir Fynwy	87,800	89,500	91,000	92,500	93,500	93,900
Casnewydd	139,700	142,100	145,200	148,400	151,200	153,600

Tabl 8: Newid mewn canran ers 2008 yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol hyd at ganol 2033

	2013	2018	2023	2028	Canran 2033
Ynys Môn	2	3	5	5	5
Gwynedd	1	2	4	5	6
Conwy	1	3	4	6	6
Sir Ddinbych	3	7	10	13	15
Sir y Fflint	1	2	2	2	2
Wrecsam	3	6	9	12	14
Powys	3	5	8	10	11
Ceredigion	2	5	7	9	10
Sir Benfro	3	5	7	9	10
Sir Gaerfyrddin	4	8	11	14	17
Abertawe	3	7	11	15	18
Castell-Nedd Port Talbot	2	4	7	8	10
Pen-y-Bont ar Ogwr	3	6	9	12	14
Bro Morgannwg	3	7	11	14	16
Caerdydd	7	15	24	33	42
Rhondda Cynon Taf	1	3	4	5	5
Merthyr Tudful	1	3	4	4	5
Caerffili	2	3	4	5	6
Blaenau Gwent	1	2	3	4	4
Tor-faen	0	0	0	-1	-2
Sir Fynwy	2	4	5	6	7
Casnewydd	2	4	6	8	10

Rhwng canol 2008 a chanol 2033, rhagwelir y bydd cynnydd o 10 y cant neu fwy ym mhoblogaeth 12 awdurdod lleol.

Erbyn canol 2033, rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cyrraedd 468,200 (cynnydd o 42 y cant). Mae'r cynnydd mawr hon yn sgil ymfudo net a ragdybir o 2,400 o bobl i Gaerdydd bob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad. Mae'r rhagbybiaethau ymfudo yn seiliedig ar dueddiadau blaenorol o'r pum mlynedd mwyaf diweddar, felly nid oes sicrwydd a fydd yr ymfudo sylweddol a welwyd yn y 5 mlynedd diwethaf yn parhau cyhyd i'r dyfodol. Mae'r amcanestyniadau'n seiliedig ar dueddiadau ac nid ydynt yn rhoi lle i effeithiau polisïau llywodraeth leol neu ganolog ar lefelau, dosbarthiad a newid poblogaeth yn y dyfodol.

Erbyn canol 2033, disgwylir y bydd poblogaeth Tor-faen wedi gostwng ychydig i 89,200, sef gostyngiad o 2 y cant ers canol 2008. Mae hyn oherwydd bod 100 yn fwy o bobl yn symud allan o'r awdurdod nag sy'n symud i mewn ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, ac mae hefyd yn sgil newid naturiol sy'n troi yn negyddol yn Nhor-faen yn sgil llai o enedigaethau a mwy o farwolaethau.

Tabl 9: Nifer y genedigaethau, marwolaethau a newid naturiol yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol hyd at ganol 2033

	2008/09			2012/13			2022/23			2032/33		
	Genedigaethau	Marwolaethau	Newid	Genedigaethau	Marwolaethau	Newid	Genedigaethau	Marwolaethau	Newid	Genedigaethau	Marwolaethau	Newid
Ynys Môn	800	800	-	800	700	-	700	800	-100	700	900	-200
Gwynedd	1,300	1,300	-100	1,300	1,300	-	1,400	1,200	100	1,300	1,400	-100
Conwy	1,100	1,400	-300	1,100	1,400	-300	1,100	1,400	-300	1,000	1,500	-500
Sir Ddinbych	1,100	1,100	-	1,100	1,100	-	1,100	1,100	-	1,100	1,300	-300
Sir y Fflint	1,800	1,400	400	1,700	1,300	400	1,600	1,400	200	1,500	1,700	-200
Wrecsam	1,700	1,300	400	1,700	1,300	400	1,600	1,300	300	1,600	1,500	100
Powys	1,300	1,400	-200	1,200	1,400	-200	1,200	1,600	-300	1,200	1,900	-700
Ceredigion	700	700	-100	700	700	-	700	800	-100	600	900	-300
Sir Benfro	1,300	1,300	-	1,300	1,300	-	1,200	1,300	-100	1,100	1,500	-400
Sir Gaerfyrddin	2,000	2,100	-100	2,000	2,000	-	2,000	2,100	-100	2,000	2,500	-500
Abertawe	2,700	2,300	400	2,900	2,200	600	3,100	2,200	900	3,000	2,400	600
Castell-Nedd Port Talbot	1,600	1,500	100	1,600	1,400	100	1,500	1,400	100	1,500	1,600	-100
Pen-y-Bont ar Ogwr	1,600	1,400	200	1,600	1,400	200	1,600	1,400	100	1,600	1,700	-100
Bro Morgannwg	1,500	1,200	300	1,500	1,200	300	1,500	1,200	300	1,500	1,500	-
Caerdydd	4,600	2,700	2,000	5,100	2,500	2,500	5,900	2,500	3,500	5,900	2,700	3,200
Rhondda Cynon Taf	2,900	2,500	400	2,800	2,400	500	2,700	2,300	400	2,600	2,500	-
Merthyr Tudful	800	600	200	800	600	200	700	600	100	700	600	100
Caerffili	2,200	1,700	500	2,100	1,700	500	2,000	1,700	300	1,900	1,900	-
Blaenau Gwent	900	800	100	900	800	100	800	700	100	800	800	-
Tor-faen	1,100	1,000	100	1,000	900	100	1,000	900	-	900	1,000	-100
Sir Fynwy	800	900	-	800	900	-100	800	900	-100	800	1,100	-400
Casnewydd	2,000	1,300	600	2,000	1,300	700	2,000	1,200	800	2,000	1,300	600

Rhagwelir mai ym Mhowys y bydd y newid naturiol negyddol mwyaf erbyn 2032/33, yn bennaf yn sgil cynnydd yn nifer y marwolaethau o 1,400 yn 2008/09 i 1,900 erbyn 2032/33 oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio.


Mae dal disgwyl i Gaerdydd gael y newid naturiol mwyaf, sef 3,200 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau erbyn 2032/33, ond er gwaethaf cynnydd mawr mewn genedigaethau yn y 15 mlynedd gyntaf yng nghyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i'r lefel genedigaethau yng Nghaerdydd aros yn eithaf gwastad rhwng 2022/23 a 2032/33.

Ynys Môn

Ynys Môn

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Ynys Môn 3,100 (neu 4.5 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r nawfed twf isaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 72,600 erbyn canol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ar Ynys Môn rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir patrymau twf cymharol debyg yn y boblogaeth dynion a menywod (4.7 y cant a 4.3 y cant yn y drefn honno).

Rhagwelir y bydd y patrwm hwn yn parhau am weddill cyfnod yr amcanestyniad hyd at ganol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd gostyngiadau bach yn nifer y genedigaethau ar Ynys Môn yn 2004/05 ac yn 2006/07. O 2008/09 ymlaen rhagwelir y bydd llai o enedigaethau ar Ynys Môn, cyn sefydlogi tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad. Y rheswm dros y gostyngiad hwn yw'r rhagamcan o ostyngiad yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) yn ystod 15 mlynedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad.


Rhwng 2003/04 a 2007/08, mae cyfradd marwolaethau ar Ynys Môn wedi aros yn eithaf cyson. Rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n gostwng hyd at oddeutu 2014/15 cyn cynyddu tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad, yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y bobl hŷn (65+ oed) ar Ynys Môn. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ledled Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ar Ynys Môn yn y pum mlynedd hyd at ganol 2007/08. Er bod ychydig yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau wedi'u rhagamcanu ar gyfer blynyddoedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn negyddol yn 2018/19 a disgwylir i hyn barhau am weddill cyfnod yr amcanestyniad. Mae Ynys Môn yn un o ddim ond wyth awdurdod lleol yng Nghymru y rhagwelir y byddant, yn gyffredinol, yn gweld mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ar draws cyfnod cyfan yr amcanestyniad. Heb ymfudiad mewnol net cadarnhaol, byddai poblogaeth Ynys Môn yn dirywio.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ar Ynys Môn yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru - h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi. Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ychydig yn uwch na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Mae Ynys Môn yn un o saith awdurdod lleol sydd â Chyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb uwch na'r lefel adnewyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes ar Ynys Môn wedi bod yn gymharol sefydlog, ac eithrio yn 2006/07 lle gwelwyd gostyngiad bach iawn.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes ar Ynys Môn gynyddu o 80.6 yn 2008/09 i 83.0 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	12,369	12,398	12,728	12,985
Oed 16-64	42,017	40,794	39,635	38,788
Oed 65+	14,413	16,712	18,624	20,122
Cyfanswm	68,799	69,903	70,988	71,896

Rhagwelir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn cynyddu 4.5 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 40 y cant o 14,400 yng nghanol 2008 i 20,100 yng nghanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	294	304	321	335
Oed 65+	343	410	470	519
Cyfanswm	637	714	791	854

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth ar Ynys Môn yn cynyddu o oddeutu 640 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 850 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ar Ynys Môn:

- 2,340 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 2,130 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o 220 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Ynys Môn fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Ychydig yn uwch ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion (+120 a +100 yn y drefn honno);
- Y 10^{fed} lefel isaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ar Ynys Môn:

- 120 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 130 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -10 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Ynys Môn fel a ganlyn:

- Ychydig yn uwch ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion (o gwmpas sero ar gyfer menywod a -10 ar gyfer dynion);
- Y 11^{eg} lefel uchaf o ymfudo rhyngwladol net ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	773	759	217	-11	2.19	82	220	69,019
2009-10	768	754	217	-11	2.17	80	220	69,238
2010-11	764	748	217	-11	2.15	78	221	69,460
2011-12	760	744	217	-11	2.13	76	222	69,682
2012-13	756	741	217	-11	2.12	73	221	69,903
2013-14	754	738	217	-11	2.10	72	221	70,124
2014-15	751	737	217	-11	2.10	70	220	70,344
2015-16	751	738	217	-11	2.10	68	218	70,562
2016-17	749	738	217	-11	2.10	66	216	70,778
2017-18	746	742	217	-11	2.10	65	210	70,988
2018-19	744	746	217	-11	2.10	63	203	71,191
2019-20	740	750	217	-11	2.10	62	195	71,386
2020-21	734	756	217	-11	2.10	61	184	71,570
2021-22	727	761	217	-11	2.10	59	171	71,741
2022-23	719	769	217	-11	2.10	58	155	71,896
2023-24	711	778	217	-11	2.10	57	138	72,034
2024-25	703	789	217	-11	2.10	56	120	72,154
2025-26	696	800	217	-11	2.10	56	102	72,256
2026-27	692	813	217	-11	2.10	55	84	72,340
2027-28	690	825	217	-11	2.10	54	71	72,411
2028-29	689	838	217	-11	2.10	54	57	72,468
2029-30	688	851	217	-11	2.10	53	43	72,511
2030-31	689	865	217	-11	2.10	53	30	72,541
2031-32	691	879	217	-11	2.10	52	18	72,558
2032-33	692	893	217	-11	2.10	52	5	72,563

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Er y rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau ar Ynys Môn yn gostwng ar y cyfan dros y cyfnod o 25 mlynedd, rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn aros yn eithaf sefydlog ar oddeutu 2.1. Y rheswm dros y gostyngiad yn y ffigurau genedigaethau yw oherwydd rhagwelir y bydd llai o fenywod o oed beichiogi (15-49) yng nghanol 2033 (12,800) o gymharu â chanol 2008 (14,100).
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau ar Ynys Môn yn gostwng hyd at 2014/15 ac yna'n codi i 890 yn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) ar Ynys Môn yn cynyddu o 14,400 yng nghanol 2008 i 22,700 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol ar gyfer Ynys Môn yn mynd yn fwy negyddol drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, o 20 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn 2011/12 i 200 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau erbyn 2032/33. Rhagwelir y bydd Ynys Môn yn gweld ymfudiad net o 220 o bobl ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.
- Felly, erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad, bydd newid naturiol ac ymfudiad net yn cydbwysu ei gilydd ar y cyfan, a bydd hyn yn arwain at newid net o oddeutu sero. Canlyniad hyn yw y bydd twf poblogaeth Ynys Môn yn sefydlogi tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion


Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn cynyddu 1.0 y cant o ganol 2008 i 69,500 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,400 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 7.2 y cant o ganol 2008 i 73,700 erbyn canol 2023. Mae hyn 1,800 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 1.9 y cant o ganol 2008 i 70,100 erbyn canol 2023. Mae hyn 1,800 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Gwynedd

Gwynedd

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Gwynedd 4,600 (neu 3.9 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r chweched twf isaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 126,000 erbyn canol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Ngwynedd rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion (5.5 y cant) nag yn y boblogaeth menywod (2.3 y cant).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yng Ngwynedd wedi cynyddu i 1,320 yn 2005/06, cyn gostwng o'r pwynt hwnnw ymlaen, a rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau'n parhau i ostwng hyd at 2010/11 cyn cynyddu eto i 1,360 erbyn 2023/24. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau'n gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad.

Ers 2003/04, mae cyfradd marwolaethau yng Ngwynedd wedi gostwng ar y cyfan ac eithrio cynnydd bach i 1,340 yn 2007/08. Rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n parhau i ostwng hyd at oddeutu 2018/19 cyn cynyddu eto tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad, oherwydd cynnydd yn nifer y boblogaeth hŷn (65+ oed) yng Ngwynedd. Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau'n dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yng Ngwynedd yn y pum mlynedd hyd at ganol 2007/08, ac eithrio newid naturiol bach cadarnhaol yn 2005/06. Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu yng Ngwynedd gan gyrraedd oddeutu 130 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn 2019/20.


O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd gostyngiad o ran newid naturiol, a bydd hyn yn mynd yn negyddol tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad, oherwydd cynnydd yn nifer y marwolaethau a gostyngiad yn nifer y genedigaethau. Heb ymfudiad mewnol net cadarnhaol ar gyfer blynyddoedd olaf cyfnod yr amcanestyniad, byddai poblogaeth Gwynedd yn dirywio.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yng Ngwynedd yn aros yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Mae gan Wynedd lefel is o ran Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb o'i chymharu â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru. Un rheswm am hyn yw'r lefelau uchel o fyfyrwyr yng Ngwynedd. Mae gan fyfyrwyr lefelau ffrwythlondeb is yn gyffredinol, ac mae hyn yn arwain at lefelau isel yn gyffredinol o ran Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb. Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes yng Ngwynedd wedi bod yn cynyddu ar y cyfan, ac eithrio gostyngiadau bach iawn yn 2004/05 ac yn 2007/08.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yng Ngwynedd gynyddu o 80.3 yn 2008/09 i 82.7 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	21,170	20,094	19,798	20,422
Oed 16-64	73,893	73,579	73,516	73,076
Oed 65+	23,527	26,040	27,976	29,671
Cyfanswm	118,590	119,713	121,290	123,170

Rhagwelir y bydd poblogaeth Gwynedd yn cynyddu 3.9 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 26.1 y cant o 23,500 yng nghanol 2008 i 29,700 yng nghanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	286	273	269	279
Oed 65+	318	354	381	406
Cyfanswm	605	627	650	685

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yng Ngwynedd yn cynyddu o oddeutu 610 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 690 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Ngwynedd:

- 5,290 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 5,140 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o 150 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Gwynedd fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Ychydig yn uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+100 a +50 yn y drefn honno);
- Yr 8^{fed} lefel isaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Ngwynedd:

- 600 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 490 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o 100 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Gwynedd fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- O gwmpas yr un fath ar gyfer dynion a menywod (+50 a +60 yn y drefn honno);
- Y 5^{ed} lefel uchaf o ymfudo rhyngwladol net ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol- flwyddyn
2008-09	1,251	1,302	146	104	1.80	85	200	118,790
2009-10	1,249	1,285	146	104	1.79	83	215	119,004
2010-11	1,246	1,274	146	104	1.77	81	223	119,227
2011-12	1,247	1,264	146	104	1.76	79	234	119,461
2012-13	1,253	1,252	146	104	1.74	77	252	119,713
2013-14	1,263	1,240	146	104	1.73	75	274	119,987
2014-15	1,277	1,232	146	104	1.73	73	295	120,282
2015-16	1,293	1,226	146	104	1.73	71	318	120,600
2016-17	1,309	1,223	146	104	1.73	70	337	120,937
2017-18	1,323	1,221	146	104	1.73	68	353	121,290
2018-19	1,336	1,217	146	104	1.73	67	370	121,660
2019-20	1,345	1,217	146	104	1.73	65	379	122,039
2020-21	1,349	1,220	146	104	1.73	64	379	122,418
2021-22	1,352	1,225	146	104	1.73	63	377	122,796
2022-23	1,355	1,232	146	104	1.73	62	374	123,170
2023-24	1,355	1,238	146	104	1.73	61	368	123,538
2024-25	1,352	1,244	146	104	1.73	60	359	123,897
2025-26	1,345	1,254	146	104	1.73	59	342	124,238
2026-27	1,334	1,265	146	104	1.73	58	319	124,558
2027-28	1,324	1,278	146	104	1.73	57	297	124,854
2028-29	1,314	1,290	146	104	1.73	57	275	125,129
2029-30	1,303	1,306	146	104	1.73	56	248	125,376
2030-31	1,292	1,322	146	104	1.73	56	221	125,597
2031-32	1,282	1,341	146	104	1.73	55	193	125,790
2032-33	1,273	1,360	146	104	1.73	55	164	125,953

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yng Ngwynedd yn gostwng i 1250 yn 2010/11 cyn cynyddu i 1,360 erbyn 2022/23. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau'n gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yng Ngwynedd yn gostwng hyd at 2018/19 gan gyrraedd 1,220, ac yna'n codi i 1,360 yn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yng Ngwynedd yn cynyddu o 23,500 yng nghanol 2008 i 33,200 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu yng Ngwynedd gan gyrraedd 130 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn 2019/20. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd gostyngiad o ran newid naturiol, a bydd hyn yn mynd yn negyddol tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad, oherwydd cynnydd yn nifer y marwolaethau a gostyngiad yn nifer y genedigaethau. 250 yw'r rhif ymfudo net ar gyfer Gwynedd ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.
- Felly, erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad, mae'r newid net ar gyfer Gwynedd yn dechrau gostwng yn raddol oherwydd y newid naturiol fwyfwy negyddol, sy'n golygu bod y boblogaeth yn cynyddu ar gyfradd arafach.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion


Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Gwynedd yn cynyddu 0.8 y cant o ganol 2008 i 119,600 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,600 yn is na'r prif amcanestyniad. Tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad dan yr amrywiolyn dim ymfudo, mae poblogaeth Gwynedd yn dechrau gostwng, ac mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymfudiad mewnol i ardal yr awdurdod lleol er mwyn cynnal y boblogaeth yno.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 6.5 y cant o ganol 2008 i 126,300 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,100 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 1.3 y cant o ganol 2008 i 120,200 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,000 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Conwy

Conwy

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Conwy 4,900 (neu 4.4 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r seithfed twf isaf ar y cyd mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 118,300 erbyn canol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Nghonwy rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Fodd bynnag, rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion (6.7 y cant) nag yn y boblogaeth menywod (2.3 y cant).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yng Nghonwy wedi cynyddu'n araf ers 2004/05. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau'n gostwng o 2008/09 ymlaen ac y bydd y gostyngiad hwn yn parhau drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Y rheswm dros y gostyngiad hwn mewn genedigaethau yw'r gostyngiad yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Ers 2003/04, mae cyfradd marwolaethau yng Nghonwy wedi gostwng ar y cyfan, a rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n parhau i ostwng hyd at 2018/19 cyn cynyddu eto tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad, oherwydd cynnydd yn nifer y boblogaeth hŷn (65+ oed) yng Nghonwy. Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau'n dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yng Nghonwy yn y pum mlynedd hyd at ganol 2007/08. Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu ar y cyfan hyd at oddeutu 2018/19, ond bydd yn dal yn aros yn negyddol ar oddeutu 270 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau, ac o'r pwynt hwn ymlaen, bydd newid naturiol yn dod yn fwyfwy negyddol dros weddill cyfnod yr amcanestyniad, yn sgil cynnydd mewn marwolaethau yn bennaf.

Mae Conwy yn un o ddim ond wyth awdurdod lleol yng Nghymru y rhagwelir y byddant yn gweld mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ar draws cyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudiad mewnol net cadarnhaol, byddai poblogaeth Conwy yn dirywio.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yng Nghonwy yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru - h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi. Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb wedi bod yn cynyddu ar y cyfan yn y pum mlynedd hyd at ganol 2007/08, ond rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn gostwng ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad cyn sefydlogi o tua 2014/15 ymlaen gan gyrraedd ychydig yn uwch na'r lefel adnewyddu (2.08). Mae Conwy yn un o saith awdurdod lleol sydd â Chyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb uwch na'r lefel adnewyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.


Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes yng Nghonwy wedi bod yn cynyddu ar y cyfan, ac eithrio gostyngiad bach yn 2006/07.


Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yng Nghonwy gynyddu o 80.1 yn 2008/09 i 82.5 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	19,251	18,994	18,985	19,018
Oed 16-64	65,586	64,748	64,073	63,358
Oed 65+	26,558	29,245	31,626	33,959
Cyfanswm	111,395	112,988	114,684	116,335

Rhagwelir y bydd poblogaeth Conwy yn cynyddu 4.4 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 27.9 y cant o 26,600 yng nghanol 2008 i 34,000 yng nghanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	294	293	296	300
Oed 65+	405	452	494	536
Cyfanswm	698	745	790	836

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yng Nghonwy yn cynyddu o oddeutu 700 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 840 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Nghonwy:

- 4,860 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 4,180 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o 670 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Conwy fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+380 a +290 yn y drefn honno);
- Y 3^{edd} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Nghonwy:

- 320 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 370 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -50 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Conwy fel a ganlyn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd;
- O gwmpas yr un fath ar gyfer dynion a menywod (-30 a -20 yn y drefn honno);
- Y 7^{fed} lefel isaf ar y cyd o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	1,129	1,435	675	-53	2.19	82	316	111,711
2009-10	1,115	1,419	675	-53	2.17	80	318	112,029
2010-11	1,099	1,403	675	-53	2.15	78	318	112,347
2011-12	1,088	1,391	675	-53	2.13	76	319	112,666
2012-13	1,080	1,380	675	-53	2.12	74	321	112,988
2013-14	1,072	1,367	675	-53	2.10	72	327	113,315
2014-15	1,069	1,356	675	-53	2.10	70	335	113,650
2015-16	1,071	1,351	675	-53	2.10	68	341	113,991
2016-17	1,072	1,348	675	-53	2.10	67	345	114,336
2017-18	1,071	1,344	675	-53	2.10	65	349	114,684
2018-19	1,070	1,343	675	-53	2.10	64	349	115,034
2019-20	1,069	1,345	675	-53	2.10	62	346	115,379
2020-21	1,065	1,352	675	-53	2.10	61	334	115,714
2021-22	1,057	1,360	675	-53	2.10	60	318	116,032
2022-23	1,050	1,369	675	-53	2.10	59	303	116,335
2023-24	1,045	1,378	675	-53	2.10	58	288	116,623
2024-25	1,038	1,390	675	-53	2.10	57	270	116,893
2025-26	1,033	1,401	675	-53	2.10	56	254	117,147
2026-27	1,029	1,417	675	-53	2.10	55	234	117,381
2027-28	1,026	1,433	675	-53	2.10	55	214	117,595
2028-29	1,020	1,449	675	-53	2.10	54	193	117,788
2029-30	1,014	1,463	675	-53	2.10	53	172	117,960
2030-31	1,007	1,482	675	-53	2.10	53	147	118,107
2031-32	1,001	1,503	675	-53	2.10	52	120	118,227
2032-33	995	1,524	675	-53	2.10	52	93	118,320

(a) Yn cyfeirio at ddiwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yng Nghonwy yn gostwng yn raddol drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad o 1,130 yn 2008/09 i 1,000 yn 2032/33. Y rheswm dros y gostyngiad hwn yw gostyngiad graddol yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) yng Nghonwy drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, o 22,000 yng nghanol 2008 i 18,800 yng nghanol 2033.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghonwy yn gostwng hyd at 2018/19 gan gyrraedd 1,340, ac yna'n codi i 1,520 yn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yng Nghonwy yn cynyddu o 26,600 yng nghanol 2008 i 39,800 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Dros gyfnod yr amcanestyniad, er gwaethaf y ffaith bod y newid naturiol yn dal yn negyddol, rhagwelir y bydd yn cynyddu ar y dechrau yng Nghonwy a rhagwelir y bydd 270 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn 2018/19. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng, ac erbyn 2032/33 rhagwelir y bydd 530 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau yng Nghonwy. Rhagwelir y bydd swm net o 620 o bobl yn ymfudo i Gonwy ar gyfer pob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.
- Felly, erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y newid net ar gyfer Conwy yn gostwng oherwydd y newid naturiol fwyfwy negyddol. Rhagwelir y bydd y newid net yn gostwng o 320 yn 2008/09 i 90 yn 2032/33, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymfudiad mewnol net cadarnhaol er mwyn cynnal twf poblogaeth Conwy.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Conwy yn gostwng 2.6 y cant o ganol 2008 i 108,400 erbyn canol 2023. Mae hyn 7,900 yn is na'r prif amcanestyniad. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymfudiad mewnol i Conwy er mwyn cynnal y boblogaeth yno.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 7.0 y cant o ganol 2008 i 119,200 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,900 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 1.9 y cant o ganol 2008 i 113,500 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,800 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.


Sir Ddinbych

Sir Ddinbych

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir Ddinbych 9,500 (neu 9.8 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r pumed twf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 111,000 erbyn canol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Sir Ddinbych rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Fodd bynnag, rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion (11.9 y cant) nag yn y boblogaeth menywod (7.8 y cant).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yn Sir Ddinbych wedi bod yn cynyddu ar y cyfan yn y pum mlynedd hyd at ganol 2007/08, ac eithrio gostyngiad bach yn 2005/06. Rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau'n aros yn eithaf sefydlog rhwng 2008/09 ac oddeutu 2018/19, ac o'r pwynt hwn ymlaen rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau'n gostwng yn raddol cyn sefydlodi tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad. Daw'r patrwm hwn yn sgil gostyngiad a ragwelir ym mhoblogaeth menywod o oed beichiogi (15-49) o ganol 2008 i ganol 2023, ac yna cynnydd yn y grŵp hwn o'r pwynt hwn ymlaen.

Ers 2003/04, mae cyfradd marwolaethau yn Sir Ddinbych wedi gostwng ar y cyfan, ac eithrio cynnydd bach yn 2007/08, a rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n parhau i ostwng hyd at oddeutu 2016/17, cyn cynyddu eto tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad. Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau'n dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn Sir Ddinbych yn y pum mlynedd hyd at 2007/08. Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd newid naturiol yn cynyddu ar y cyfan hyd at oddeutu 2018/19 lle bydd yn aros o gwmpas sero (tua'r un faint o enedigaethau a marwolaethau), ac o'r pwynt hwn ymlaen daw'r newid naturiol yn fwyfwy negyddol dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.


Mae Sir Ddinbych yn un o ddim ond wyth awdurdod lleol yng Nghymru y rhagwelir y byddant yn gweld mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ar draws cyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudiad mewnlol net cadarnhaol, gallai poblogaeth Sir Ddinbych ddirywio.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Sir Ddinbych yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru - h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi. Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb wedi bod yn cynyddu ar y cyfan yn y pum mlynedd hyd at ganol 2007/08, ond rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn gostwng ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad cyn sefydlogi o tua 2014/15 ymlaen gan gyrraedd 2.17. Mae Sir Ddinbych yn un o saith awdurdod lleol sydd â Chyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb uwch na'r lefel adnewyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes yn Sir Ddinbych wedi bod yn cynyddu ar y cyfan ers 2004/05.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yn Sir Ddinbych gynyddu o 80.3 yn 2008/09 i 82.8 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	17,515	17,633	18,010	18,628
Oed 16-64	58,866	59,003	58,905	58,975
Oed 65+	20,356	23,204	26,145	28,604
Cyfanswm	96,737	99,840	103,060	106,208

Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Ddinbych yn cynyddu 9.8 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 40.5 y cant o 20,400 yng nghanol 2008 i 28,600 yng nghanol 2023. Mae nifer o ffactorau yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach; y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd; a mewnfudiad net o bobl oed 65+ i mewn i Sir Ddinbych ym mhob blwyddyn o'r cyfnod amcanestyniad.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	298	299	306	316
Oed 65+	346	393	444	485
Cyfanswm	643	692	750	801

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru.

Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yn Sir Ddinbych yn cynyddu o oddeutu 640 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 800 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Sir Ddinbych:

- 4,650 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 3,990 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o 660 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Sir Ddinbych fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+350 a +310 yn y drefn honno);
- Y 4^{edd} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Sir Ddinbych:

- 220 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 240 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -20 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Sir Ddinbych fel a ganlyn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd;
- O gwmpas yr un fath ar gyfer dynion a menywod (oddeutu -10 ar gyfer y ddau);
- Y 10^{fed} lefel isaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	1,106	1,134	661	-18	2.26	83	615	97,352
2009-10	1,100	1,126	661	-18	2.24	81	617	97,969
2010-11	1,094	1,116	661	-18	2.22	78	620	98,589
2011-12	1,089	1,109	661	-18	2.20	76	624	99,213
2012-13	1,086	1,102	661	-18	2.18	74	627	99,840
2013-14	1,085	1,094	661	-18	2.17	72	634	100,474
2014-15	1,086	1,089	661	-18	2.17	70	640	101,113
2015-16	1,089	1,087	661	-18	2.17	69	645	101,758
2016-17	1,092	1,085	661	-18	2.17	67	650	102,408
2017-18	1,095	1,086	661	-18	2.17	65	652	103,060
2018-19	1,096	1,086	661	-18	2.17	64	653	103,713
2019-20	1,095	1,093	661	-18	2.17	62	645	104,358
2020-21	1,092	1,102	661	-18	2.17	61	633	104,991
2021-22	1,086	1,110	661	-18	2.17	60	619	105,610
2022-23	1,079	1,123	661	-18	2.17	59	598	106,208
2023-24	1,072	1,135	661	-18	2.17	58	580	106,788
2024-25	1,066	1,151	661	-18	2.17	57	559	107,346
2025-26	1,061	1,166	661	-18	2.17	56	538	107,884
2026-27	1,057	1,186	661	-18	2.17	55	514	108,398
2027-28	1,055	1,204	661	-18	2.17	54	494	108,892
2028-29	1,053	1,223	661	-18	2.17	54	473	109,365
2029-30	1,051	1,242	661	-18	2.17	53	452	109,817
2030-31	1,052	1,262	661	-18	2.17	52	432	110,249
2031-32	1,052	1,284	661	-18	2.17	52	411	110,660
2032-33	1,052	1,307	661	-18	2.17	52	388	111,047

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn Sir Ddinbych yn aros yn eithaf cyson ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, cyn gostwng o 2018/19 ymlaen. Y rheswm dros y newidiadau yn y ffigurau genedigaethau yw'r effaith carfannau oedran, hynny yw rhagwelir y bydd mwy o fenywod o oedran cario plentyn (15-49) ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, ond bydd y rhif yn gostwng yn raddol at ganol 2023, cyn dechrau cynyddu eto tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad. Bydd hyn yn golygu bod nifer y genedigaethau'n gostwng yn fwy graddol o oddeutu 2026/27 ymlaen.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn Sir Ddinbych yn gostwng hyd at 2016/17 gan gyrraedd 1,090, ac yna'n codi i 1,310 yn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yn Sir Ddinbych yn cynyddu o 20,400 yng nghanol 2008 i 34,500 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Dros gyfnod yr amcanestyniad, er gwaethaf y ffaith bod y newid naturiol yn dal yn negyddol ar y cyfan, rhagwelir y bydd yn cynyddu ar y dechrau yn Sir Ddinbych a rhagwelir y bydd oddeutu 10 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn 2018/19. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng, ac erbyn 2032/33 rhagwelir y bydd 250 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn Sir Ddinbych. Rhagwelir y bydd swm net o 640 o bobl yn ymfudo i Sir Ddinbych ar gyfer pob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.
- Felly, erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y newid net ar gyfer Sir Ddinbych yn gostwng oherwydd y newid naturiol fwyfwy negyddol. Rhagwelir y bydd y newid net yn gostwng o 620 yng nghanol 2008/09 i 390 yng nghanol 2032/33, sy'n golygu y bydd poblogaeth Sir Ddinbych yn cynyddu ar gyfradd arafach tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Ddinbych yn cynyddu 0.9 y cant o ganol 2008 i 97,600 erbyn canol 2023. Mae hyn 8,600 yn is na'r prif amcanestyniad. Gan edrych ymlaen ymhellach i ganol 2033, dengys y byddai poblogaeth Sir Ddinbych, dan yr amrywiolyn dim ymfudo, yn dechrau gostwng ym mlyneddolaf cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymfudiad mewnol i Sir Ddinbych er mwyn cynnal y boblogaeth yno.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 12.6 y cant o ganol 2008 i 108,900 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,700 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 7.1 y cant o ganol 2008 i 103,600 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,600 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.


Sir y Fflint

Sir y Fflint

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir y Fflint 3,400 (neu 2.3 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r ail dwf isaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu tan ganol 2025 pan fydd yn cyrraedd 153,200, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Sir y Fflint rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Fodd bynnag, rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion (3.1 y cant) nag yn y boblogaeth menywod (1.4 y cant).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yn Sir y Fflint wedi amrywio yn y pum mlynedd hyd at 2007/08. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau'n gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad; y rheswm dros hyn yw gostyngiad ym mhoblogaeth menywod o oed beichiogi (15-49) yn Sir y Fflint drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Ers 2003/04, mae cyfradd marwolaethau yn Sir y Fflint wedi gostwng ar y cyfan, ac eithrio cynnydd bach yn 2007/08, a rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n parhau i ostwng hyd at oddeutu 2013/14, cyn cynyddu eto am weddill cyfnod yr amcanestyniad. Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau'n dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn Sir y Fflint yn y pum mlynedd hyd at 2007/08. Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng ar y cyfan, oherwydd gostyngiad yn nifer y genedigaethau a mwy o farwolaethau. Erbyn 2028/29 rhagwelir y bydd y newid naturiol yn negyddol.

Rhagwelir y bydd yr ymfudiad net ar gyfer Sir y Fflint yn negyddol ar gyfer pob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, ac mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd newid naturiol cadarnhaol er mwyn cynnal y boblogaeth.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Sir y Fflint wedi bod yn is ar y cyfan na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu ers 2003/04, ac eithrio ychydig o gynnydd yn uwch na'r lefel adnewyddu yn 2007/08. Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Sir y Fflint yn gostwng ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, gan ostwng yn is na'r lefel adnewyddu yn 2011/12, ac yn sefydlogi o oddeutu 2013/14 ymlaen gan aros yn gyson am weddill cyfnod yr amcanestyniad.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes yn Sir y Fflint wedi bod yn cynyddu ar y cyfan ers 2003/04, ac eithrio gostyngiad bach yn 2005/06.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yn Sir y Fflint gynyddu o 80.4 yn 2008/09 i 82.8 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	28,338	27,696	27,517	27,432
Oed 16-64	96,296	94,092	91,838	89,924
Oed 65+	25,097	29,377	32,998	35,775
Cyfanswm	149,731	151,165	152,354	153,132

Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir y Fflint yn cynyddu 2.3 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 42.5 y cant o 25,100 yng nghanol 2008 i 35,800 yng nghanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Rhagwelir y bydd nifer y plant dan 16 oed yn gostwng erbyn canol 2023 o ganlyniad, fwy na thebyg, i'r gostyngiad yn nifer y genedigaethau dros gyfnod yr amcanestyniad. Rhagwelir hefyd y bydd gostyngiad yn y boblogaeth 16-64 oed erbyn canol 2023, o ganlyniad yn bennaf i ymfudiad allanol net cyffredinol o Sir y Fflint ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	294	294	300	305
Oed 65+	261	312	359	398
Cyfanswm	555	607	659	703

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yn Sir y Fflint yn cynyddu o oddeutu 550 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 700 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Sir y Fflint:

- 4,670 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 4,680 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o -10 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Sir y Fflint fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a negyddol ar gyfer menywod (+20 a -30 yn y drefn honno);
- Y 5^{ed} lefel isaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Sir y Fflint:

- 180 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 280 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -100 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Sir y Fflint fel a ganlyn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd;
- Ychydig yn uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (-60 a -40 yn y drefn honno);
- Y 4^{edd} lefel isaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	1,792	1,366	-9	-98	2.11	85	319	150,050
2009-10	1,766	1,356	-9	-98	2.10	82	302	150,352
2010-11	1,742	1,349	-9	-98	2.08	80	285	150,637
2011-12	1,721	1,343	-9	-98	2.06	78	271	150,908
2012-13	1,704	1,340	-9	-98	2.04	76	257	151,165
2013-14	1,693	1,336	-9	-98	2.03	73	249	151,415
2014-15	1,688	1,338	-9	-98	2.03	72	242	151,657
2015-16	1,688	1,341	-9	-98	2.03	70	240	151,897
2016-17	1,686	1,344	-9	-98	2.03	68	234	152,131
2017-18	1,680	1,350	-9	-98	2.03	67	223	152,354
2018-19	1,673	1,359	-9	-98	2.03	65	207	152,561
2019-20	1,664	1,372	-9	-98	2.03	64	184	152,745
2020-21	1,653	1,386	-9	-98	2.03	62	159	152,904
2021-22	1,639	1,402	-9	-98	2.03	61	130	153,034
2022-23	1,624	1,419	-9	-98	2.03	60	97	153,132
2023-24	1,609	1,440	-9	-98	2.03	59	62	153,193
2024-25	1,594	1,461	-9	-98	2.03	58	26	153,219
2025-26	1,580	1,482	-9	-98	2.03	57	-9	153,210
2026-27	1,567	1,505	-9	-98	2.03	56	-45	153,165
2027-28	1,554	1,531	-9	-98	2.03	56	-83	153,082
2028-29	1,541	1,552	-9	-98	2.03	55	-118	152,963
2029-30	1,527	1,574	-9	-98	2.03	54	-154	152,810
2030-31	1,515	1,601	-9	-98	2.03	54	-193	152,616
2031-32	1,503	1,626	-9	-98	2.03	53	-230	152,386
2032-33	1,493	1,652	-9	-98	2.03	53	-266	152,120

(a) Yn cyfeirio at ddiwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn Sir y Fflint yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Y rheswm dros y gostyngiad hwn yn y ffigurau genedigaethau yw gostyngiad graddol yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) yn Sir y Fflint o 33,900 yng nghanol 2008 i 27,900 yng nghanol 2033.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn Sir y Fflint yn gostwng hyd at 2013/14 gan gyrraedd 1,340, ac yna'n codi i 1,650 yn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yn Sir y Fflint yn cynyddu o 25,100 yng nghanol 2008 i 42,900 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng dros gyfnod yr amcanestyniad o lefel uchel o 430 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn 2008/09, gan ddod yn negyddol tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad. Erbyn 2032/33 rhagwelir y bydd 160 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn Sir y Fflint. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn negyddol, gyda 110 yn fwy o bobl yn gadael ardal yr awdurdod nag yn cyrraedd yno bob blwyddyn.
- Felly, oherwydd bod yr ymfudo net cyffredinol ar gyfer Sir y Fflint yn negyddol ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, mae'r newid naturiol yn gyfrifol ar y cychwyn am y newid net cadarnhaol a chynnydd mewn poblogaeth yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, wrth i'r newid naturiol ostwng a mynd yn negyddol, yna daw'r newid net cyffredinol yn negyddol hefyd, a bydd hyn yn arwain at ostyngiad mewn poblogaeth yn Sir y Fflint tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Sir y Fflint yn cynyddu 3.7 y cant o ganol 2008 i 155,300 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,100 yn fwy na'r prif amcanestyniad. Mae'r amrywiolyn dim ymfudo yn rhagamcanu poblogaeth uwch na'r prif amcanestyniad oherwydd bod yr ymfudiad net cyffredinol a ragwelir ar gyfer Sir y Fflint yn negyddol ar gyfer pob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, ac mae cael gwared ag effeithiau ymfudo yn arwain felly at fwy o bobl yn aros yn Sir y Fflint.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 4.9 y cant o ganol 2008 i 157,000 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,900 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn gostwng 0.3 y cant o ganol 2008 i 149,300 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,800 yn is na'r prif amcanestyniad. Rhagwelir y bydd y gostyngiad hwn yn parhau dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Wreccsam

Wrecsam

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Wrecsam 12,300 (neu 9.3 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r chweched twf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 151,500 erbyn canol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Wrecsam rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir ychydig yn fwy o dwf yn y boblogaeth dynion (10.1 y cant) nag yn y boblogaeth menywod (8.5 y cant).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yn Wrecsam wedi cynyddu yn y pum mlynedd hyd at ganol 2007/08. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn gostwng yn raddol hyd at 2024/25, cyn cynyddu'n raddol o'r pwynt hwn ymlaen. Y rheswm dros y gostyngiad cychwynnol yn nifer y genedigaethau yw gostyngiad ym mhoblogaeth menywod o oed beichiogi (15-49) hyd at ganol 2022; o'r pwynt hwn ymlaen mae'r boblogaeth yn dechrau cynyddu gan arwain at gynydd yn nifer y genedigaethau.

Ers 2003/04, mae cyfradd marwolaethau yn Wrecsam wedi gostwng ar y cyfan er gwaethaf amrywiadau yn 2004/05 ac yn 2006/07, a rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n parhau i ostwng hyd at 2014/15, cyn cynyddu eto am weddill cyfnod yr amcanestyniad. Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau'n dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn Wrecsam yn y pum mlynedd hyd at 2007/08. Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng, yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y marwolaethau.

Rhagwelir y bydd Wrecsam yn gweld ymfudiad net cadarnhaol o 440 o bobl ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Wrecsam wedi bod yn is ar y cyfan na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu ers 2003/04, ac eithrio ychydig o gynnydd yn uwch na'r lefel adnewyddu yn 2007/08. Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Wrecsam yn gostwng ym mlyneddoddd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, gan ostwng yn is na'r lefel adnewyddu yn 2009/10, ac yn sefydlogi o oddeutu 2014/15 ymlaen gan aros yn gyson am weddill cyfnod yr amcanestyniad.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes yn Wrecsam wedi bod yn cynyddu ers 2003/04.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yn Wrecsam gynyddu o 80.1 yn 2008/09 i 82.6 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	24,833	25,449	26,316	26,807
Oed 16-64	85,733	85,822	85,810	86,280
Oed 65+	22,153	25,667	28,971	31,926
Cyfanswm	132,719	136,938	141,097	145,013

Rhagwelir y bydd poblogaeth Wrecsam yn cynyddu 9.3 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 44.1 y cant o 22,200 yng nghanol 2008 i 31,900 yng nghanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	290	297	307	311
Oed 65+	258	299	338	370
Cyfanswm	548	596	644	681

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yn Wrecsam yn cynyddu o oddeutu 550 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 680 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Wrecsam:

- 3,860 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 3,570 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o 290 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Wrecsam fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion (+180 a +110 yn y drefn honno);
- Y 11^{eg} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Wrecsam:

- 450 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 310 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o 150 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Wrecsam fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+90 a +60 yn y drefn honno);
- Y 4^{edd} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	1,687	1,272	290	147	2.08	86	851	133,570
2009-10	1,678	1,266	290	147	2.06	84	849	134,419
2010-11	1,668	1,260	290	147	2.04	81	844	135,263
2011-12	1,658	1,255	290	147	2.02	79	840	136,103
2012-13	1,650	1,252	290	147	2.01	77	835	136,938
2013-14	1,644	1,247	290	147	2.00	75	833	137,772
2014-15	1,642	1,244	290	147	1.99	73	835	138,606
2015-16	1,642	1,244	290	147	1.99	71	834	139,441
2016-17	1,642	1,247	290	147	1.99	69	831	140,272
2017-18	1,639	1,251	290	147	1.99	68	825	141,097
2018-19	1,635	1,255	290	147	1.99	66	817	141,913
2019-20	1,629	1,263	290	147	1.99	65	803	142,717
2020-21	1,624	1,275	290	147	1.99	63	786	143,503
2021-22	1,618	1,289	290	147	1.99	62	766	144,269
2022-23	1,611	1,305	290	147	1.99	61	744	145,013
2023-24	1,609	1,319	290	147	1.99	60	727	145,739
2024-25	1,609	1,335	290	147	1.99	59	711	146,450
2025-26	1,610	1,354	290	147	1.99	58	693	147,144
2026-27	1,612	1,375	290	147	2.00	57	674	147,817
2027-28	1,614	1,396	290	147	2.00	57	655	148,472
2028-29	1,617	1,418	290	147	2.00	56	636	149,108
2029-30	1,620	1,438	290	147	2.00	55	618	149,726
2030-31	1,623	1,463	290	147	2.00	54	597	150,323
2031-32	1,627	1,490	290	147	2.00	54	574	150,897
2032-33	1,633	1,516	290	147	2.00	54	554	151,451

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn Wrecsam yn gostwng yn araf hyd at 2024/25 cyn cynyddu'n raddol o'r pwynt hwn ymlaen. Y rheswm dros y gostyngiad cychwynnol yn nifer y genedigaethau yw gostyngiad ym mhoblogaeth menywod o oed beichiogi (15-49) o 30,500 yng nghanol 2008 i 29,000 yng nghanol 2022; o'r pwynt hwn ymlaen mae'r boblogaeth yn dechrau cynyddu gan arwain at gynnydd yn nifer y genedigaethau.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn Wrecsam yn gostwng hyd at 2014/15 gan gyrraedd 1,240, ac yna'n codi i 1,520 yn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yn Wrecsam yn cynyddu o 22,200 yng nghanol 2008 i 38,100 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng dros gyfnod yr amcanestyniad o lefel uchel o 410 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn 2008/09, i 120 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau erbyn canol 2032/33. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 440 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Mae'r newid net yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad o 850 yn 2008/09 i 550 erbyn 2032/33 oherwydd gostyngiad yn y newid naturiol drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Mae'r newid net yn aros yn gadarnhaol erbyn 2032/33 oherwydd ymfudiad net cadarnhaol a nifer uwch o enedigaethau nag o farwolaethau yn Wrecsam.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Wrecsam yn cynyddu 3.9 y cant o ganol 2008 i 137,900 erbyn canol 2023. Mae hyn 7,100 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 12.1 y cant o ganol 2008 i 148,700 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,700 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 6.5 y cant o ganol 2008 i 141,400 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,600 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Powys

Powys

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Powys 10,500 (neu 8.0 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r wythfed twf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 146,300 erbyn canol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ym Mhowys rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y bydd y boblogaeth dynion a menywod wedi cynyddu 8.0 y cant.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau ym Mhowys wedi aros yn eithaf cyson yn y pum mlynedd hyd at 2007/08. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau'n gostwng yn araf hyd at 2012/13, cyn cynyddu hyd at 2019/20 ac yna'n gostwng eto o'r pwynt hwn ymlaen ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad.

Ers 2003/04, mae cyfradd marwolaethau ym Mhowys wedi gostwng ar y cyfan er gwaethaf amrywiadau yn 2004/05 ac yn 2006/07, a rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n parhau i ostwng hyd at 2008/09, cyn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn wahanol i'r patrwm cyffredinol ar gyfer nifer y marwolaethau a welir ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru lle mae cyfradd marwolaethau yn parhau i ostwng ar y cyfan hyd at oddeutu canol cyfnod yr amcanestyniad cyn cynyddu o'r pwynt hwnnw ymlaen.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ym Mhowys yn y pum mlynedd hyd at 2007/08.

Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn dod yn fwyfwy negyddol dros gyfnod yr amcanestyniad, yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y marwolaethau.


Mae Powys yn un o ddim ond wyth awdurdod lleol yng Nghymru y rhagwelir y byddant yn gweld mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ar draws cyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudiad mewnol net cadarnhaol, gallai poblogaeth Powys ddirywio.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ym Mhowys ychydig yn uwch na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ym Mhowys yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru - h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi. Mae Powys yn un o saith awdurdod lleol sydd â Chyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb uwch na'r lefel adnewyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes ym Mhowys wedi bod yn cynyddu ar y cyfan ers 2003/04, er gwaethaf amrywiadau bach.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes ym Mhowys gynyddu o 81.5 yn 2008/09 i 83.8 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	23,420	22,461	22,328	22,426
Oed 16-64	79,556	78,770	77,361	76,111
Oed 65+	28,701	34,142	39,208	43,661
Cyfanswm	131,677	135,373	138,896	142,197

Rhagwelir y bydd poblogaeth Powys yn cynyddu 8.0 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 52.1 y cant o 28,700 yng nghanol 2008 i 43,700 yng nghanol 2023. Mae nifer o ffactorau yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach; y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd; a mewnfudiad net o bobl oed 65+ i mewn i Bowys ym mhob blwyddyn o'r cyfnod amcanestyniad. Rhagwelir y bydd Powys yn gweld gostyngiad bach yn nifer y plant a nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed erbyn canol 2023.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	294	285	289	295
Oed 65+	361	433	507	574
Cyfanswm	655	719	795	868

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth ym Mhowys yn cynyddu o oddeutu 660 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 870 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ym Mhowys:

- 5,680 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 4,770 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +910 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Powys fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion (+480 a +430 yn y drefn honno);
- Yr ail lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ym Mhowys:

- 270 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 250 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o +20 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Powys fel a ganlyn:

- Tebyg ar gyfer dynion a menywod (o gwmpas sero ar gyfer dynion a +10 ar gyfer menywod)
- Yr 8^{fed} lefel uchaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	1,256	1,411	913	15	2.22	74	772	132,449
2009-10	1,242	1,415	913	15	2.20	72	755	133,204
2010-11	1,229	1,422	913	15	2.18	71	735	133,939
2011-12	1,222	1,428	913	15	2.16	69	722	134,661
2012-13	1,218	1,434	913	15	2.14	67	713	135,373
2013-14	1,218	1,439	913	15	2.13	66	707	136,080
2014-15	1,224	1,445	913	15	2.13	64	708	136,788
2015-16	1,231	1,455	913	15	2.13	62	704	137,492
2016-17	1,238	1,464	913	15	2.12	61	702	138,194
2017-18	1,244	1,470	913	15	2.12	59	702	138,896
2018-19	1,249	1,480	913	15	2.13	58	697	139,593
2019-20	1,251	1,495	913	15	2.13	57	685	140,278
2020-21	1,250	1,514	913	15	2.13	56	665	140,942
2021-22	1,248	1,536	913	15	2.13	55	640	141,582
2022-23	1,244	1,556	913	15	2.13	54	615	142,197
2023-24	1,238	1,580	913	15	2.13	53	586	142,783
2024-25	1,231	1,606	913	15	2.13	52	553	143,337
2025-26	1,223	1,633	913	15	2.13	51	518	143,855
2026-27	1,213	1,664	913	15	2.13	51	477	144,332
2027-28	1,202	1,696	913	15	2.13	50	435	144,766
2028-29	1,192	1,727	913	15	2.13	49	392	145,159
2029-30	1,181	1,762	913	15	2.13	49	347	145,505
2030-31	1,171	1,803	913	15	2.13	49	296	145,802
2031-32	1,163	1,839	913	15	2.13	48	253	146,055
2032-33	1,155	1,879	913	15	2.13	48	204	146,259

(a) Yn cyfeirio at ddiwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau ym Mhowys yn gostwng yn araf hyd at 2013/14, cyn cynyddu hyd at 2019/20 ac yna'n gostwng eto o'r pwynt hwn ymlaen ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Rhagwelir y bydd llai o enedigaethau ym Mhowys erbyn 2032/33 nag a welwyd ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad. Y rheswm dros hyn yw effaith carfan oedran, hynny yw rhagwelir y bydd llai o fenywod o oed cario plentyn (15-49) yng nghanol 2033 (22,400) nag yng nghanol 2008 (25,400).
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau ym Mhowys yn cynyddu drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, o 1,410 yn 2008/09 i 1,880 yn 2032/33. Y rheswm dros y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau yw cynnydd yn nifer y bobl hŷn (65+oed) ym Mhowys drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, o 28,700 yng nghanol 2008 i 52,700 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn dod yn fwyfwy negyddol ym Mhowys drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad o 160 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn 2008/09, i 720 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau erbyn canol 2032/33. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 930 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Mae'r newid net ym Mhowys yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad o 770 yn 2008/09 i 200 erbyn 2032/33 oherwydd gostyngiad yn y newid naturiol drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymfudiad net i Bowys er mwyn cynnal y boblogaeth yno.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion


Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Powys yn gostwng 0.8 y cant o ganol 2008 i 130,600 erbyn canol 2023. Mae hyn 11,600 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 10.5 y cant o ganol 2008 i 145,500 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,300 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 5.6 y cant o ganol 2008 i 139,000 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,200 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Ceredigion

Ceredigion

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Ceredigion 5,500 (neu 7.1 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r degfed twf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 84,600 erbyn canol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Ngheredigion rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (8.5 y cant a 5.8 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yng Ngheredigion wedi amrywio yn y pum mlynedd hyd at 2007/08. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau'n cynyddu hyd at 2016/17 ac yna'n gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad.

Yng Ngheredigion gwelwyd gostyngiad yn y gyfradd marwolaethau rhwng 2004/05 a 2005/06 o 817 i 728 o farwolaethau. Arhosodd y gyfradd yn eithaf cyson wedyn, a rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau yng Ngheredigion yn aros yn gyson hyd at oddeutu 2016/17, ac o'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y niferoedd yn cynyddu. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn wedyn yn parhau am weddill cyfnod yr amcanestyniad. Nid yw hyn yn dilyn y patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru lle mae cyfradd marwolaethau'n gostwng ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yng Ngheredigion yn y pum mlynedd hyd at 2007/08.

Mae cynnydd yn nifer y genedigaethau ar gyfer blynyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad yn achosi cynnydd bach yn y newid naturiol, ond mae cynnydd yn nifer y marwolaethau a gostyngiad dilynol yn nifer y genedigaethau yng Ngheredigion yn golygu bod y newid naturiol yn dod yn fwyfwy negyddol o ganol cyfnod yr amcanestyniad ac mae'r gostyngiad hwn yn parhau hyd at 2032/33.

Mae Ceredigion yn un o ddim ond wyth awdurdod lleol yng Nghymru y rhagwelir y byddant yn gweld mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ar draws cyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudiad mewnol net cadarnhaol, gallai poblogaeth Ceredigion ddirywio.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yng Ngheredigion yn aros yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Mae gan Geredigion y lefel isaf o ran Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb o'i chymharu â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Un rheswm dros hyn yw'r lefelau uchel o fyfyrwyr yng Ngheredigion. Mae gan fyfyrwyr lefelau ffrwythlondeb is yn gyffredinol, ac mae hyn yn arwain at lefelau isel yn gyffredinol o ran Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.


Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes yng Ngheredigion wedi bod yn cynyddu ar y cyfan ers 2003/04, er gwaethaf gostyngiad bach yn 2007/08.


Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yng Ngheredigion gynyddu o 82.0 yn 2008/09 i 84.2 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	11,786	11,452	11,705	12,080
Oed 16-64	49,471	49,014	48,473	48,014
Oed 65+	15,555	18,114	20,303	22,179
Cyfanswm	76,812	78,579	80,481	82,273

Rhagwelir y bydd poblogaeth Ceredigion yn cynyddu 7.1 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 42.6 y cant o 15,600 yng nghanol 2008 i 22,200 yng nghanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	238	234	241	252
Oed 65+	314	370	419	462
Cyfanswm	553	603	660	714

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yng Ngheredigion yn cynyddu o oddeutu 550 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 710 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Ngheredigion:

- 5,930 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 5,800 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +140 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Ceredigion fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+90 a +50 yn y drefn honno);
- Y 7^{fed} lefel isaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Ngheredigion:

- 810 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 530 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o +280 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Ceredigion fel a ganlyn:

- +140 ar gyfer dynion a menywod;
- Y 3^{edd} lefel uchaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol- flwyddyn
2008-09	651	720	135	277	1.59	69	344	77,156
2009-10	658	720	135	277	1.58	67	351	77,507
2010-11	661	722	135	277	1.56	65	352	77,859
2011-12	664	720	135	277	1.55	64	357	78,216
2012-13	669	718	135	277	1.54	62	364	78,579
2013-14	676	716	135	277	1.53	60	373	78,952
2014-15	683	717	135	277	1.52	59	379	79,331
2015-16	688	715	135	277	1.52	57	385	79,716
2016-17	689	717	135	277	1.52	56	384	80,100
2017-18	689	721	135	277	1.52	55	381	80,481
2018-19	688	723	135	277	1.52	53	377	80,858
2019-20	686	729	135	277	1.52	52	370	81,228
2020-21	684	735	135	277	1.52	51	361	81,589
2021-22	679	743	135	277	1.52	50	349	81,938
2022-23	673	751	135	277	1.52	50	334	82,273
2023-24	665	757	135	277	1.52	49	320	82,593
2024-25	657	768	135	277	1.52	48	302	82,894
2025-26	649	777	135	277	1.52	47	284	83,178
2026-27	640	788	135	277	1.52	46	265	83,443
2027-28	632	801	135	277	1.53	46	243	83,687
2028-29	624	813	135	277	1.53	45	223	83,910
2029-30	615	827	135	277	1.53	45	201	84,111
2030-31	608	841	135	277	1.53	44	179	84,290
2031-32	602	857	135	277	1.53	44	158	84,448
2032-33	598	874	135	277	1.53	44	136	84,584

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Er y rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yng Ngheredigion yn cynyddu i 690 yn 2016/17 ac yna'n gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn aros yn eithaf cyson ar oddeutu 1.5. Y rheswm dros y newidiadau yn y ffigurau genedigaethau yw'r effaith carfan oedran, hynny yw, er y rhagwelir y bydd gostyngiad yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) i fyny at ganol 2023 ac yna o ganol 2029 ymlaen, rhagwelir y bydd cynnydd yn nifer y menywod yn y grŵp oedran lefel ffrwythlondeb uchel (25-34) hyd at 2014/15, ac ar ôl hynny bydd y niferoedd yn gostwng. Mae hyn yn achosi'r cynnydd cychwynnol yn nifer y genedigaethau.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yng Ngheredigion yn aros yn gyson hyd at oddeutu 2016/17, ac o'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y niferoedd yn cynyddu. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn wedyn yn parhau am weddill cyfnod yr amcanestyniad. Y rheswm dros y cynnydd yn y ffigurau marwolaethau yw cynnydd yn nifer y bobl hŷn (65+oed) yng Ngheredigion drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, o 15,600 yng nghanol 2008 i 25,400 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Mae cynnydd yn nifer y genedigaethau ar gyfer blynyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad yn achosi cynnydd bach yn y newid naturiol yng Ngheredigion, ond mae cynnydd yn nifer y marwolaethau a gostyngiad dilynol yn nifer y genedigaethau yng Ngheredigion yn golygu bod y newid naturiol yn dod yn fwyfwy negyddol o ganol cyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 280 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn 2032/33. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 410 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Mae'r newid net ar gyfer Ceredigion yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad o 340 yn 2008/09 i 140 erbyn 2032/33 oherwydd y newid naturiol fwyfwy negyddol. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymfudiad net cadarnhaol i Geredigion er mwyn cynnal y boblogaeth yno.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Ceredigion yn cynyddu 1.7 y cant o ganol 2008 i 78,100 erbyn canol 2023. Mae hyn 4,100 yn is na'r prif amcanestyniad. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y boblogaeth yn gostwng o ganol 2024 ymlaen, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymfudiad er mwyn cynnal twf poblogaeth.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 9.4 y cant o ganol 2008 i 84,000 erbyn canol 2023. Mae hyn 1,700 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 4.9 y cant o ganol 2008 i 80,600 erbyn canol 2023. Mae hyn 1,700 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Sir Benfro

Sir Benfro

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth cyfanswm Sir Benfro 8,500 (neu 7.2 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r nawfed twf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 129,300 erbyn canol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Sir Benfro rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (8.3 y cant a 6.2 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yn Sir Benfro wedi cynyddu yn y pum mlynedd hyd at 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn parhau i gynyddu yn 2008/09, cyn gostwng yn araf hyd at oddeutu 2016/17, ac yna gostwng ar gyfradd gyflymach ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Y rheswm, fwy na thebyg, dros y gostyngiad hwn yn nifer y genedigaethau yw'r gostyngiad yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad.

Yn Sir Benfro gwelwyd gostyngiad yn y gyfradd marwolaethau rhwng 2004/05 a 2007/08. Rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n parhau i ostwng hyd at oddeutu 2013/14, cyn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn Sir Benfro yn y pum mlynedd hyd at 2007/08, a mae newid naturiol yn gyffredinol wedi bod yn cynyddu. Er rhagwelir cynnydd yn newid naturiol rhwng 2007/08 a 2008/09, rhagwelir felly y bydd y newid naturiol yn aros yn eithaf cyson hyd at oddeutu 2015/16 cyn gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, o ganlyniad i lai o enedigaethau a mwy o farwolaethau.

Mae Sir Benfro yn un o ddim ond wyth awdurdod lleol yng Nghymru y rhagwelir y byddant yn gweld mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ar draws cyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudiad mewnol net cadarnhaol, gallai poblogaeth Sir Benfro ddirywio.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Sir Benfro wedi cynyddu o 2.0 yn 2003/04 i 2.2 yn 2007/08, a rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn aros ar y lefel hon i gychwyn cyn gostwng i 2.13 erbyn oddeutu 2014/15. Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn aros ar y lefel hon dros weddill cyfnod yr amcanestyniad. Mae Sir Benfro yn un o saith awdurdod lleol sydd â Chyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb uwch na'r lefel adnewyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes yn Sir Benfro wedi bod yn cynyddu ers 2005/06.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yn Sir Benfro gynyddu o 80.5 yn 2008/09 i 83.0 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	22,187	21,642	21,642	21,799
Oed 16-64	70,871	70,621	70,173	69,818
Oed 65+	24,534	28,287	31,648	34,439
Cyfanswm	117,592	120,550	123,463	126,056

Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Benfro yn cynyddu 7.2 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 40.4 y cant o 24,500 yng nghanol 2008 i 34,400 yng nghanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Rhagwelir gostyngiad bach yn nifer y plant ac yn y grŵp pobl 16-64 oed yn Sir Benfro.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	313	306	308	312
Oed 65+	346	401	451	493
Cyfanswm	659	707	759	806

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed. Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yn Sir Benfro yn cynyddu o oddeutu 660 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 810 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Sir Benfro:

- 4,200 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 3,600 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +590 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Sir Benfro fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+310 a +280 yn y drefn honno);
- Y 6^{ed} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Sir Benfro:

- 360 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 350 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o +10 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Sir Benfro fel a ganlyn:

- O gwmpas yr un fath ar gyfer dynion a menywod (+10 ac o gwmpas sero yn y drefn honno);
- Y 10^{fed} lefel uchaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol- flwyddyn
2008-09	1,271	1,279	594	11	2.22	82	596	118,188
2009-10	1,265	1,274	594	11	2.20	79	595	118,783
2010-11	1,258	1,271	594	11	2.18	77	591	119,374
2011-12	1,255	1,271	594	11	2.16	75	587	119,962
2012-13	1,253	1,269	594	11	2.15	73	588	120,550
2013-14	1,252	1,269	594	11	2.14	71	588	121,138
2014-15	1,252	1,271	594	11	2.13	69	586	121,724
2015-16	1,254	1,273	594	11	2.13	68	586	122,309
2016-17	1,254	1,277	594	11	2.13	66	582	122,891
2017-18	1,250	1,283	594	11	2.13	64	572	123,463
2018-19	1,246	1,289	594	11	2.13	63	561	124,025
2019-20	1,241	1,302	594	11	2.13	62	543	124,567
2020-21	1,232	1,315	594	11	2.13	61	521	125,088
2021-22	1,221	1,330	594	11	2.13	60	496	125,584
2022-23	1,210	1,342	594	11	2.13	58	472	126,056
2023-24	1,199	1,359	594	11	2.13	57	444	126,500
2024-25	1,189	1,375	594	11	2.13	57	418	126,918
2025-26	1,180	1,393	594	11	2.13	56	391	127,310
2026-27	1,172	1,413	594	11	2.13	55	363	127,672
2027-28	1,165	1,432	594	11	2.14	54	337	128,009
2028-29	1,158	1,452	594	11	2.14	53	310	128,319
2029-30	1,152	1,475	594	11	2.13	53	281	128,601
2030-31	1,148	1,499	594	11	2.14	52	253	128,854
2031-32	1,143	1,523	594	11	2.14	52	224	129,078
2032-33	1,139	1,549	594	11	2.14	52	194	129,272

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn Sir Benfro yn gostwng ar y cyfan drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Y rheswm dros y newidiadau yn y ffigurau genedigaethau yw'r effaith carfan oedran, hynny yw, rhagwelir y bydd oddeutu 2,000 yn llai o fenywod o oed beichiogi (15-49) yn Sir Benfro erbyn canol 2033 o'i gymharu â'r ffigur yng nghanol 2008.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn Sir Benfro yn gostwng hyd at 2013/14 gan gyrraedd 1,270, cyn codi ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 1,550 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yn Sir Benfro yn cynyddu o 24,500 yng nghanol 2008 i 40,400 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn Sir Benfro yn aros yn eithaf cyson ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, gan aros o gwmpas rhwng 10 a 20 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau. Fodd bynnag, yn sgil llai o enedigaethau a mwy o farwolaethau yn Sir Benfro, bydd y newid naturiol yn dod yn fwyfwy negyddol tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad, ac erbyn 2032/33 rhagwelir y bydd oddeutu 410 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 600 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Felly, erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y newid net ar gyfer Sir Benfro yn dal yn gadarnhaol oherwydd y dybiaeth y bydd ymfudiad net uchel; fodd bynnag yn sgil y newid naturiol fwyfwy negyddol gwelir gostyngiad yn y newid net drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, a rhagwelir y bydd y boblogaeth yn tyfu'n arafach yn Sir Benfro ym mlynnyddoedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Benfro yn cynyddu 1.2 y cant o ganol 2008 i 119,000 erbyn canol 2023. Mae hyn 7,100 yn is na'r prif amcanestyniad. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y boblogaeth yn gostwng o ganol 2030 ymlaen, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymfudiad er mwyn cynnal twf poblogaeth.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 9.9 y cant o ganol 2008 i 129,200 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,100 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 4.6 y cant o ganol 2008 i 123,000 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,000 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Sir Gaerfyrddin

Sir Gaerfyrddin

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin 20,300 (neu 11.2 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r ail dwf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 211,600 erbyn canol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Sir Gaerfyrddin rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (12.1 y cant a 10.4 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu yn y pum mlynedd hyd at 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn aros yn eithaf cyson ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, cyn gostwng yn araf o 2017/18 ymlaen, ac yna cynyddu ychydig ar gyfer blynnyddoedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.

Yn Sir Gaerfyrddin gwelwyd gostyngiad yn y gyfradd marwolaethau rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n parhau i ostwng hyd at oddeutu 2015/16, cyn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn Sir Gaerfyrddin yn y pum mlynedd hyd at 2007/08. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd ychydig o gynnydd o ran newid naturiol o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y marwolaethau ar y dechrau, cyn dod yn fwyfwy negyddol o oddeutu 2017/18 ymlaen. Rhagwelir y bydd y gostyngiad hwn yn y newid naturiol yn parhau dros weddill cyfnod yr amcanestyniad, yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y marwolaethau yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Sir Gaerfyrddin yn un o ddim ond wyth awdurdod lleol yng Nghymru y rhagwelir y byddant yn gweld mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ar draws cyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudiad mewnol net cadarnhaol, gallai poblogaeth Sir Gaerfyrddin ddirywio.


Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Roedd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Sir Gaerfyrddin yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu yn y pum mlynedd hyd at 2007/08. Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn gostwng ym mlyneddoddd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, ac yna'n sefydlogi ar 1.98 erbyn 2013/14 ac yn aros ar y lefel hon am weddill cyfnod yr amcanestyniad. Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.


Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn cynyddu ers 2003/04.


Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yn Sir Gaerfyrddin gynyddu o 80.2 yn 2008/09 i 82.7 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	32,956	33,177	34,483	35,572
Oed 16-64	111,238	112,363	112,869	113,436
Oed 65+	36,463	41,826	46,911	51,904
Cyfanswm	180,657	187,366	194,263	200,912

Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn cynyddu 11.2 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 42.3 y cant o 36,500 yng nghanol 2008 i 51,900 yng nghanol 2023. Mae nifer o ffactorau yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach; y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd; a mewnfudiad net o bobl oed 65+ i mewn i Sir Gaerfyrddin ym mhob blwyddyn o'r cyfnod amcanestyniad. Rhagwelir cynnydd yn y boblogaeth plant ac yn nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed yn Sir Gaerfyrddin.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	296	295	306	314
Oed 65+	328	372	416	458
Cyfanswm	624	668	721	771

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu o oddeutu 625 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 770 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Sir Gaerfyrddin:

- 6,480 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 5,130 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +1,340 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Yr un fath ar gyfer dynion a menywod (+670 ar gyfer y ddau);
- Y lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Sir Gaerfyrddin:

- 350 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 290 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o +60 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Yr un fath ar gyfer dynion a menywod (+30 ar gyfer y ddau);
- Y 6^{ed} lefel uchaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	2,010	2,082	1,345	58	2.06	88	1,330	181,987
2009-10	2,007	2,073	1,345	58	2.05	86	1,336	183,323
2010-11	2,001	2,063	1,345	58	2.03	84	1,340	184,662
2011-12	1,998	2,053	1,345	58	2.01	81	1,347	186,010
2012-13	1,998	2,044	1,345	58	1.99	79	1,356	187,366
2013-14	2,001	2,041	1,345	58	1.98	77	1,363	188,729
2014-15	2,009	2,037	1,345	58	1.98	75	1,375	190,104
2015-16	2,018	2,036	1,345	58	1.98	74	1,385	191,489
2016-17	2,024	2,040	1,345	58	1.98	72	1,387	192,876
2017-18	2,026	2,042	1,345	58	1.98	70	1,387	194,263
2018-19	2,025	2,049	1,345	58	1.98	68	1,378	195,641
2019-20	2,020	2,063	1,345	58	1.98	67	1,359	197,000
2020-21	2,013	2,082	1,345	58	1.98	66	1,334	198,334
2021-22	2,005	2,103	1,345	58	1.98	65	1,305	199,639
2022-23	1,997	2,127	1,345	58	1.98	64	1,273	200,912
2023-24	1,988	2,150	1,345	58	1.98	62	1,241	202,153
2024-25	1,980	2,182	1,345	58	1.98	61	1,201	203,354
2025-26	1,974	2,212	1,345	58	1.98	61	1,164	204,518
2026-27	1,970	2,247	1,345	58	1.98	60	1,125	205,643
2027-28	1,967	2,284	1,345	58	1.98	59	1,085	206,728
2028-29	1,965	2,322	1,345	58	1.98	58	1,046	207,774
2029-30	1,965	2,361	1,345	58	1.98	58	1,006	208,781
2030-31	1,966	2,403	1,345	58	1.98	57	966	209,747
2031-32	1,971	2,447	1,345	58	1.98	57	926	210,673
2032-33	1,977	2,495	1,345	58	1.98	57	885	211,557

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn aros yn eithaf cyson ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, cyn gostwng yn araf o 2017/18 ymlaen, ac yna cynyddu ychydig ar gyfer blynyddoedd olaf cyfnod yr amcanestyniad. Rhagwelir y bydd poblogaeth menywod o oed beichiogi yn Sir Gaerfyrddin (15-49) yn gostwng rhwng canol 2010 a chanol 2022 cyn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, ac erbyn canol 2033 rhagwelir bydd oddeutu 370 yn fwy o fenywod oed beichiogi nag yng nghanol 2008. Rhagwelir bydd poblogaeth menywod oed lefel ffrwythlondeb uchel (25-34) yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad hyd ganol 2019, cyn gostwng at ganol 2032.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn Sir Gaerfyrddin yn gostwng hyd at 2015/16 gan gyrraedd 2,040, cyn codi ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 2,500 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu o 36,500 yng nghanol 2008 i 61,900 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn Sir Gaerfyrddin yn aros yn negyddol drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, er gwaethaf cynnydd bach ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad o ganlyniad i ostyngiad yn y gyfradd marwolaethau ar y dechrau. O oddeutu 2017/08 ymlaen pan fydd oddeutu 20 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn dod yn fwyfwy negyddol, gan gyrraedd 520 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2032/33. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 1,400 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd y newid net ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn gostwng o 2017/08 ymlaen oherwydd y newid naturiol fwyfwy negyddol, ond rhagwelir y bydd y newid net yn dal yn uchel ar 880 erbyn 2032/33 oherwydd ymfudiad net cyffredinol uchel i Sir Gaerfyrddin ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn cynyddu 0.2 y cant o ganol 2008 i 181,000 erbyn canol 2023. Mae hyn 20,000 yn is na'r prif amcanestyniad. Rhagwelir y bydd y boblogaeth dan yr amrywiolyn dim ymfudo yn gostwng o ganol 2025 ymlaen.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 13.9 y cant o ganol 2008 i 205,800 erbyn canol 2023. Mae hyn 4,900 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 8.6 y cant o ganol 2008 i 196,100 erbyn canol 2023. Mae hyn 4,800 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Abertawe

Abertawe

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Abertawe 25,300 (neu 11.0 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r trydydd twf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 272,100 erbyn canol 2033.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Abertawe rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth hyd at oddeutu canol 2032, pan fydd nifer y dynion yn fwy na nifer y menywod.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (12.6 y cant a 9.4 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yn Abertawe wedi cynyddu rhwng 2004/05 a 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn parhau i gynyddu hyd at 2019/20, ac o'r pwynt hwn, rhagwelir gostyngiad bach yn nifer y genedigaethau hyd at 2029/30.


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd marwolaethau yn Abertawe wedi gostwng ar y cyfan, ac eithrio cynnydd bach yn 2004/05 ac yn 2006/07. Disgwylir i'r gostyngiad hwn barhau hyd at 2018/19, ac ar ôl hynny bydd y gyfradd marwolaethau'n dechrau codi eto. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn Abertawe yn 2003/04 ac yn 2004/05, ac ar ôl hynny daeth y newid naturiol yn bositif, gan gynyddu i 320 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn 2007/08. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn parhau i gynyddu dros gyfnod yr amcanestyniad hyd at 2019/20, a bydd yn dechrau gostwng o'r pwynt hwn ymlaen o ganlyniad i gynnydd a ragwelir yn nifer y marwolaethau.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Abertawe yn aros yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Mae gan Abertawe lefel is o ran Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb o'i chymharu â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru. Un rheswm dros hyn yw'r lefelau uchel o fyfyrwyr yn Abertawe. Mae gan fyfyrwyr lefelau ffrwythlondeb is yn gyffredinol, ac mae hyn yn arwain at lefelau isel yn gyffredinol o ran Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes yn Abertawe wedi bod yn cynyddu ar y cyfan ers 2003/04, ac eithrio gostyngiad bach yn 2006/07.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yn Abertawe gynyddu o 80.4 yn 2008/09 i 82.8 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	39,903	41,219	44,142	47,117
Oed 16-64	148,438	150,768	153,270	156,011
Oed 65+	41,710	45,392	48,683	52,176
Cyfanswm	230,051	237,379	246,095	255,304

Rhagwelir y bydd poblogaeth Abertawe yn cynyddu 11.0 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Rhagwelir y bydd cynnydd yn nifer y plant (18.1 y cant) a chynnydd yn nifer y bobl 65+oed (25.1 y cant) yn Abertawe rhwng canol 2008 a chanol 2023. Rhagwelir y bydd y boblogaeth 16-64 oed hefyd yn cynyddu 5.1 y cant. Rhagwelir llai o gynnydd yn nifer y bobl 65+oed yn Abertawe o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru; mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i all-lif net o ymfudwyr o Abertawe ar gyfer y grŵp oedran hwn ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	269	273	288	302
Oed 65+	281	301	318	334
Cyfanswm	550	574	606	636

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed. Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yn Abertawe yn cynyddu o oddeutu 550 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 640 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y plant a'r bobl 65+oed sy'n gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Abertawe:

- 8,900 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 8,500 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +400 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Abertawe fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+240 a +170 yn y drefn honno);
- Y 10^{fed} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Abertawe:

- 1,600 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 1,050 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o +550 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Abertawe fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+290 a +270 yn y drefn honno);
- Yr ail lefel uchaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	2,749	2,343	404	553	1.86	84	1,363	231,414
2009-10	2,773	2,316	404	553	1.85	82	1,414	232,828
2010-11	2,799	2,293	404	553	1.83	80	1,464	234,292
2011-12	2,828	2,272	404	553	1.81	78	1,513	235,805
2012-13	2,862	2,246	404	553	1.80	76	1,573	237,379
2013-14	2,900	2,222	404	553	1.79	74	1,635	239,014
2014-15	2,944	2,202	404	553	1.78	72	1,700	240,714
2015-16	2,987	2,189	404	553	1.78	70	1,755	242,469
2016-17	3,020	2,181	404	553	1.78	69	1,797	244,266
2017-18	3,046	2,174	404	553	1.78	67	1,829	246,095
2018-19	3,064	2,169	404	553	1.78	65	1,853	247,948
2019-20	3,074	2,173	404	553	1.78	64	1,859	249,806
2020-21	3,074	2,181	404	553	1.78	63	1,850	251,657
2021-22	3,068	2,191	404	553	1.78	62	1,834	253,491
2022-23	3,058	2,202	404	553	1.78	61	1,813	255,304
2023-24	3,046	2,211	404	553	1.78	60	1,792	257,097
2024-25	3,034	2,225	404	553	1.78	59	1,767	258,864
2025-26	3,024	2,241	404	553	1.78	58	1,740	260,604
2026-27	3,014	2,259	404	553	1.78	57	1,712	262,316
2027-28	3,007	2,278	404	553	1.78	56	1,686	264,002
2028-29	3,002	2,298	404	553	1.78	56	1,661	265,664
2029-30	3,000	2,321	404	553	1.78	55	1,636	267,300
2030-31	3,003	2,343	404	553	1.78	54	1,617	268,917
2031-32	3,011	2,367	404	553	1.78	54	1,601	270,518
2032-33	3,024	2,400	404	553	1.78	54	1,582	272,100

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn cynyddu hyd at 2019/20, ac o'r pwynt hwn, rhagwelir gostyngiad bach yn nifer y genedigaethau hyd at 2029/30. Rhagwelir bydd poblogaeth menywod o oed beichiogi (15-49) yn Abertawe yn cynyddu ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd poblogaeth menywod o oed lefel ffrwythlondeb uwch (25-34) yn Abertawe yn cynyddu hyd at ganol 2019, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen hyd at ganol 2031. Felly, mae'r gostyngiad hwn yn nifer y menywod oed lefel ffrwythlondeb uwch yn arwain at ostyngiad yn nifer y genedigaethau o 2019/20 ymlaen.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn Abertawe yn gostwng hyd at 2018/19 gan gyrraedd 2,170, cyn codi ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 2,400 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yn Abertawe yn cynyddu o 41,700 yng nghanol 2008 i 59,800 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn Abertawe yn cynyddu hyd at 2019/20, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen o ganlyniad i fwy o farwolaethau. Yn 2019/20, rhagwelir y bydd 900 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn Abertawe, yn gostwng i 620 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau erbyn canol 2032/33, felly er gwaethaf y gostyngiad yn y newid naturiol, rhagwelir y bydd dal llawer mwy o enedigaethau nag o farwolaethau erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 960 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd y newid net ar gyfer Abertawe yn cynyddu yn hanner cyntaf cyfnod yr amcanestyniad o ganlyniad i fwy o newid naturiol; fodd bynnag bydd yn dechrau gostwng o 2019/20 ymlaen. Rhagwelir y bydd y newid net yn dal yn uchel erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad oherwydd ymfudiad net uchel o bobl i Abertawe ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, ynghyd â llawer mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn ardal yr awdurdod lleol.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Abertawe yn cynyddu 3.4 y cant o ganol 2008 i 237,900 erbyn canol 2023. Mae hyn 17,500 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 13.8 y cant o ganol 2008 i 261,800 erbyn canol 2023. Mae hyn 6,500 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 8.2 y cant o ganol 2008 i 248,900 erbyn canol 2023. Mae hyn 6,400 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Castell-Nedd Port Talbot

Castell-nedd Port Talbot

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Castell-nedd Port Talbot 8,900 (neu 6.5 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r unfed twf ar ddeg uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 150,900 erbyn canol 2033.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Nghastell-nedd Port Talbot rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (7.8 y cant a 5.3 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cynyddu ar y cyfan rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn aros yn eithaf cyson ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, cyn gostwng o 2015/16 ymlaen. Rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau'n cynyddu ychydig bach o 2029/30 ymlaen.


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd marwolaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi gostwng ers 2003/04. Disgwylir i'r gostyngiad hwn barhau hyd at 2018/19, ac ar ôl hynny bydd y gyfradd marwolaethau'n dechrau codi eto. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot rhwng 2003/04 a 2006/07. Fodd bynnag, mae'r newid naturiol wedi bod yn cynyddu ac erbyn 2007/08 gwelwyd bod ychydig mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn parhau i gynyddu hyd at 2016/17, ac ar ôl hynny bydd yn gostwng am weddill cyfnod yr amcanestyniad, cyn dod yn negyddol unwaith eto erbyn 2027/28.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yng Nghastell-nedd Port Talbot yn aros yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yng Nghastell-nedd Port Talbot yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru - h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae disgwyliad oes yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi bod yn cynyddu ar y cyfan ers 2003/04, ac eithrio gostyngiad bach yn 2006/07.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yng Nghastell-nedd Port Talbot gynyddu o 79.6 yn 2008/09 i 82.2 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	25,127	25,118	26,050	26,443
Oed 16-64	87,025	87,081	86,334	85,759
Oed 65+	25,407	28,208	31,165	34,306
Cyfanswm	137,559	140,406	143,548	146,508

Rhagwelir y bydd poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yn cynyddu 6.5 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 35.0 y cant o 25,400 yng nghanol 2008 i 34,300 yng nghanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	289	288	302	308
Oed 65+	292	324	361	400
Cyfanswm	581	612	663	708

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cynyddu o oddeutu 580 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 710 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot:

- 4,070 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 3,500 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +560 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Castell-nedd Port Talbot fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+300 a +270 yn y drefn honno);
- Y 7^{fed} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot:

- 80 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 180 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -100 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Castell-nedd Port Talbot fel a ganlyn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd;
- Yr un fath ar gyfer dynion a menywod (-50 ar gyfer y ddau);
- Y drydedd lefel isaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	1,567	1,492	564	-101	1.99	88	539	138,098
2009-10	1,565	1,471	564	-101	1.98	86	557	138,655
2010-11	1,562	1,454	564	-101	1.96	83	571	139,226
2011-12	1,558	1,437	564	-101	1.94	81	584	139,810
2012-13	1,557	1,424	564	-101	1.93	79	596	140,406
2013-14	1,557	1,410	564	-101	1.92	76	611	141,017
2014-15	1,559	1,399	564	-101	1.91	74	623	141,641
2015-16	1,562	1,392	564	-101	1.91	72	634	142,274
2016-17	1,562	1,386	564	-101	1.91	71	639	142,913
2017-18	1,556	1,385	564	-101	1.91	69	635	143,548
2018-19	1,547	1,384	564	-101	1.91	67	627	144,175
2019-20	1,536	1,386	564	-101	1.91	66	613	144,788
2020-21	1,524	1,393	564	-101	1.91	64	594	145,383
2021-22	1,512	1,402	564	-101	1.91	63	573	145,955
2022-23	1,501	1,412	564	-101	1.91	62	552	146,508
2023-24	1,491	1,423	564	-101	1.91	61	531	147,039
2024-25	1,482	1,435	564	-101	1.91	60	510	147,549
2025-26	1,476	1,451	564	-101	1.91	59	489	148,038
2026-27	1,470	1,468	564	-101	1.91	58	466	148,504
2027-28	1,467	1,486	564	-101	1.91	57	444	148,948
2028-29	1,465	1,505	564	-101	1.91	56	423	149,372
2029-30	1,464	1,522	564	-101	1.91	56	405	149,777
2030-31	1,465	1,545	564	-101	1.91	55	384	150,160
2031-32	1,469	1,569	564	-101	1.91	54	364	150,524
2032-33	1,474	1,592	564	-101	1.91	54	345	150,869

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn aros yn eithaf cyson ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, cyn gostwng o 2015/16 ymlaen. Rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau'n cynyddu ychydig bach o 2029/30 ymlaen. Rhagwelir y bydd nifer y menywod o oed beichiogi yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gostwng o ganol 2008 hyd at ganol 2022, cyn cynyddu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad. Fodd bynnag, ymddengys mai'r hyn sy'n gyfrifol am y patrwm a welir yn nifer y genedigaethau yw'r boblogaeth menywod o oed lefel ffrwythlondeb uwch (25-34) yng Nghastell-nedd Port Talbot, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, cyn gostwng o ganol 2018 ymlaen at ganol 2032. Erbyn canol 2033, rhagwelir y bydd oddeutu 1,400 yn llai o fenywod rhwng 15 a 49 oed yng Nghastell-nedd Port Talbot nag yng nghanol 2008.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gostwng hyd at 2018/19 gan gyrraedd 1,380, cyn codi ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 1,590 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cynyddu o 25,400 yng nghanol 2008 i 41,200 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cynyddu hyd at 2016/17 lle bydd oddeutu 180 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, ac o'r pwynt hwn ymlaen bydd y newid naturiol yn gostwng dros weddill cyfnod yr amcanestyniad, gan fynd yn negyddol erbyn 2027/28. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 460 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd y newid net ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn cynyddu hyd at 2016/17 o ganlyniad i fwy o newid naturiol; fodd bynnag bydd yn dechrau gostwng o'r pwynt hwn ymlaen. Erbyn 2032/33, bydd y newid net wedi gostwng i 350 o ganlyniad i amcanestyniad o 120 yn fwy o farwolaethau nag o enedigaethau a ragwelir yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2032/33.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion


Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yn cynyddu 1.3 y cant o ganol 2008 i 139,300 erbyn canol 2023. Mae hyn 7,200 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 9.2 y cant o ganol 2008 i 150,200 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,700 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 3.9 y cant o ganol 2008 i 142,900 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,600 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Pen-y-bont ar Ogwr

Pen-y-bont ar Ogwr

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr 12,100 (neu 9.0 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r seithfed twf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 152,100 erbyn canol 2033.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir ychydig mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (9.8 y cant a 8.3 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu ar y cyfan rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn gostwng ar y cyfan ar draws cyfnod yr amcanestyniad hyd at 2026/27, pan fyddant yn dechrau cynyddu'n araf.


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd marwolaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gostwng ers 2003/04, ac eithrio cynnydd bach yn 2007/08. Disgwylir i'r gostyngiad hwn barhau hyd at 2015/16, ac ar ôl hynny bydd y gyfradd marwolaethau'n dechrau codi eto. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o enedigaethau nag o farwolaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr rhwng 2003/04 a 2007/08, a chynnydd yn y newid naturiol. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn aros yn eithaf cyson ym Mhen-y-bont ar Ogwr hyd at oddeutu 2018/19 ar oddeutu 210 i 220 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau dros y cyfnod hwn. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, gan ddod yn negyddol yn 2028/29. Yr hyn sy'n bennaf gyfrifol am y gostyngiad hwn yn y newid naturiol yw cynnydd a ragwelir yn nifer y marwolaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Roedd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) rhwng 2003/04 a 2006/07, gan godi'n uwch na'r lefel adnewyddu yn 2007/08.

Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru – h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi. Erbyn 2014/15 bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb wedi sefydlogi ar 2.04 a rhagwelir y bydd yn aros ar y lefel hon dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod disgwyliad oes ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu ar y dechrau o 2003/04 ymlaen ond wedi gostwng ychydig yn 2006/07 gan aros ar y lefel hon yn 2007/08.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes ym Mhen-y-bont ar Ogwr gynyddu o 79.6 yn 2008/09 i 82.2 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	25,438	25,800	26,392	26,728
Oed 16-64	85,078	85,541	85,947	86,657
Oed 65+	23,405	26,672	29,782	32,638
Cyfanswm	133,921	138,014	142,122	146,023

Rhagwelir y bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu 9.0 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 39.4 y cant o 23,400 yng nghanol 2008 i 32,600 yng nghanol 2023. Mae nifer o ffactorau yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach; y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd; a mewnfudiad net o bobl oed 65+ i mewn i Ben-y-bont ar Ogwr ym mhob blwyddyn o'r cyfnod amcanestyniad. Rhagwelir cynnydd bach yn nifer y plant ac yn nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr erbyn canol 2023.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	299	302	307	308
Oed 65+	275	312	347	377
Cyfanswm	574	613	654	685

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu o oddeutu 570 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 690 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr:

- 4,090 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 3,430 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +660 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion (+340 a +310 yn y drefn honno);
- Y 5^{ed} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr:

- 180 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 230 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -50 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr fel a ganlyn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd;
- Yr un fath ar gyfer dynion a menywod (-30 ar gyfer y ddau);
- Y 7^{fed} lefel isaf ar y cyd o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	1,619	1,398	658	-53	2.13	93	826	134,747
2009-10	1,606	1,393	658	-53	2.11	91	819	135,566
2010-11	1,594	1,380	658	-53	2.09	88	819	136,385
2011-12	1,583	1,373	658	-53	2.07	86	816	137,201
2012-13	1,574	1,367	658	-53	2.06	83	813	138,014
2013-14	1,569	1,360	658	-53	2.05	81	814	138,828
2014-15	1,569	1,357	658	-53	2.04	79	818	139,646
2015-16	1,574	1,355	658	-53	2.04	77	825	140,471
2016-17	1,578	1,356	658	-53	2.04	75	828	141,298
2017-18	1,580	1,362	658	-53	2.04	73	823	142,122
2018-19	1,580	1,367	658	-53	2.04	72	819	142,940
2019-20	1,575	1,377	658	-53	2.04	70	804	143,744
2020-21	1,570	1,393	658	-53	2.04	69	783	144,526
2021-22	1,565	1,410	658	-53	2.04	68	760	145,286
2022-23	1,559	1,427	658	-53	2.04	67	737	146,023
2023-24	1,554	1,444	658	-53	2.04	65	715	146,739
2024-25	1,549	1,463	658	-53	2.04	64	691	147,430
2025-26	1,546	1,484	658	-53	2.04	63	667	148,096
2026-27	1,543	1,509	658	-53	2.04	63	640	148,736
2027-28	1,544	1,531	658	-53	2.04	62	618	149,354
2028-29	1,547	1,551	658	-53	2.04	61	602	149,956
2029-30	1,549	1,577	658	-53	2.04	60	578	150,534
2030-31	1,552	1,604	658	-53	2.04	60	554	151,088
2031-32	1,554	1,629	658	-53	2.04	59	530	151,619
2032-33	1,557	1,657	658	-53	2.04	59	506	152,124

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gostwng ar y cyfan ar draws cyfnod yr amcanestyniad hyd at 2026/27, pan fyddant yn dechrau cynyddu'n araf. Gallai'r gostyngiad hwn yn nifer y genedigaethau fod o ganlyniad i ostyngiad a ragwelir yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) ym Mhen-y-bont ar Ogwr o 30,400 yng nghanol 2008 i 28,300 yng nghanol 2023. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd nifer y menywod o oed beichiogi yn cynyddu, ond y bydd y ffigur oddeutu 1,200 yn llai yng nghanol 2033 o'i gymharu â'r ffigur yng nghanol 2008.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gostwng hyd at 2015/16 gan gyrraedd 1,360, cyn codi ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 1,660 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu o 23,400 yng nghanol 2008 i 40,200 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn aros yn eithaf cyson ym Mhen-y-bont ar Ogwr hyd at oddeutu 2018/19 ar oddeutu 210 i 220 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau dros y cyfnod hwn. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, gan fynd yn negyddol yn 2028/29. Yr hyn sy'n bennaf gyfrifol am y gostyngiad hwn yn y newid naturiol yw cynnydd a ragwelir yn nifer y marwolaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 610 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd y newid net ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn aros yn eithaf cyson ar gyfer blynyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad hyd at oddeutu 2016/17, pan fydd y newid net yn dechrau gostwng oherwydd cynnydd a ragwelir yn nifer y marwolaethau yn ardal yr awdurdod. Erbyn 2032/33, rhagwelir y bydd y newid net wedi gostwng i 510, ond er gwaethaf y gostyngiad, mae'r ffigur yn dal yn gymharol uchel oherwydd mewnlfif net uchel o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu 2.6 y cant o ganol 2008 i 137,500 erbyn canol 2023. Mae hyn 8,600 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 11.8 y cant o ganol 2008 i 149,700 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,700 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 6.4 y cant o ganol 2008 i 142,400 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,600 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Bro Morgannwg

Bro Morgannwg

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Bro Morgannwg 13,200 (neu 10.6 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r pedwerydd twf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad gan gyrraedd 144,600 erbyn canol 2033.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ym Mro Morgannwg rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir ychydig mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (10.9 y cant a 10.3 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau ym Mro Morgannwg wedi cynyddu ar y cyfan rhwng 2003/04 a 2007/08, ac eithrio gostyngiad bach yn 2005/06. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn gostwng yn araf rhwng 2008/09 a 2011/12, yna cynyddu o'r pwynt hwn hyd at 2019/20 cyn gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad.

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf mae cyfradd marwolaethau ym Mro Morgannwg wedi aros yn eithaf cyson ers 2004/05.


Rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n gostwng hyd at 2016/17, ac ar ôl hynny bydd y gyfradd yn dechrau codi eto. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o enedigaethau nag o farwolaethau ym Mro Morgannwg rhwng 2004/05 a 2007/08, a chynnydd yn y newid naturiol ers 2005/06. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu ar y cyfan ym Mro Morgannwg hyd at oddeutu 2018/19, cyn gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Roedd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ym Mro Morgannwg yn is na'r cyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) rhwng 2003/04 a 2006/07, gan godi'n uwch na'r lefel adnewyddu yn 2007/08. Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ym Mro Morgannwg yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru - h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi. Erbyn 2013/14 rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb wedi sefydlogi ar 2.05 ac y bydd yn aros ar y lefel hon dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf cynyddodd disgwyliad oes ym Mro Morgannwg rhwng 2003/04 a 2006/07, gan ostwng ychydig bach iawn yn 2007/08.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes ym Mro Morgannwg gynyddu o 80.7 yn 2008/09 i 83.1 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	24,366	24,491	25,341	26,625
Oed 16-64	77,638	78,473	79,091	79,238
Oed 65+	22,119	25,394	28,378	31,412
Cyfanswm	124,123	128,358	132,810	137,275

Rhagwelir y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu 10.6 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 42.0 y cant o 22,100 yng nghanol 2008 i 31,400 yng nghanol 2023. Mae nifer o ffactorau yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach; y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd; a mewnfudiad net o bobl oed 65+ i mewn i Fro Morgannwg ym mhob blwyddyn o'r cyfnod amcanestyniad. Rhagwelir cynnydd yn nifer y plant ac yn nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed ym Mro Morgannwg erbyn canol 2023.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	314	312	320	336
Oed 65+	285	324	359	396
Cyfanswm	599	636	679	732

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru.

Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth ym Mro Morgannwg yn cynyddu o oddeutu 600 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 730 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ym Mro Morgannwg:

- 5,120 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 4,570 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +550 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Bro Morgannwg fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion (+330 a +220 yn y drefn honno);
- Y 8^{fed} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ym Mro Morgannwg:

- 330 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 320 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o +20 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Bro Morgannwg fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Yr un fath ar gyfer dynion a menywod (+10 ar gyfer y ddau);
- Y 7^{fed} lefel uchaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	1,506	1,229	547	18	2.14	84	842	124,965
2009-10	1,500	1,221	547	18	2.12	81	845	125,809
2010-11	1,495	1,216	547	18	2.10	79	844	126,654
2011-12	1,493	1,209	547	18	2.08	77	849	127,503
2012-13	1,493	1,203	547	18	2.06	75	855	128,358
2013-14	1,498	1,198	547	18	2.05	73	865	129,223
2014-15	1,508	1,197	547	18	2.05	71	877	130,100
2015-16	1,522	1,196	547	18	2.05	69	892	130,992
2016-17	1,536	1,196	547	18	2.05	67	905	131,897
2017-18	1,546	1,198	547	18	2.05	66	913	132,810
2018-19	1,553	1,202	547	18	2.05	64	916	133,727
2019-20	1,556	1,211	547	18	2.05	63	910	134,637
2020-21	1,553	1,221	547	18	2.05	61	897	135,534
2021-22	1,547	1,231	547	18	2.05	60	881	136,415
2022-23	1,540	1,244	547	18	2.05	59	861	137,275
2023-24	1,534	1,260	547	18	2.05	58	840	138,115
2024-25	1,530	1,276	547	18	2.05	57	819	138,934
2025-26	1,524	1,295	547	18	2.05	56	795	139,729
2026-27	1,519	1,316	547	18	2.05	56	769	140,498
2027-28	1,515	1,338	547	18	2.05	55	743	141,241
2028-29	1,512	1,360	547	18	2.05	54	717	141,958
2029-30	1,509	1,383	547	18	2.05	54	691	142,650
2030-31	1,506	1,407	547	18	2.05	53	664	143,314
2031-32	1,503	1,433	547	18	2.05	53	636	143,949
2032-33	1,502	1,458	547	18	2.05	52	609	144,558

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau ym Mro Morgannwg yn gostwng yn araf rhwng 2008/09 a 2011/12, yna'n cynyddu o'r pwynt hwn hyd at 2019/20 cyn gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Erbyn 2032/33, rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau ar lefelau tebyg i'r rheini a welwyd ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad. Gallai'r gostyngiad yn nifer y genedigaethau tua diwedd cyfnod yr amcanestyniad fod o ganlyniad i ostyngiad a ragwelir yn nifer y menywod o oed lefel ffrwythlondeb uwch (25-34) o ganol 2022 ymlaen.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau ym Mro Morgannwg yn gostwng hyd at 2016/17 gan gyrraedd 1,200, cyn codi ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 1,460 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) ym Mro Morgannwg yn cynyddu o 22,100 yng nghanol 2008 i 37,800 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu ar y cyfan ym Mro Morgannwg hyd at oddeutu 2018/19 gan gyrraedd 350 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, cyn gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Yr hyn sy'n bennaf gyfrifol am y gostyngiad yn y newid naturiol yw cynnydd a ragwelir yn nifer y marwolaethau yn ardal yr awdurdod. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 570 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd y newid net ar gyfer Bro Morgannwg yn cynyddu ar y cyfan ar gyfer hanner cyntaf cyfnod yr amcanestyniad hyd at oddeutu 2018/19, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen oherwydd llai o newid naturiol. Rhagwelir y bydd y newid net yn parhau i ostwng dros weddill cyfnod yr amcanestyniad, ond mae ffigur 2032/33 o 610 yn dal yn gymharol uchel oherwydd bod mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn ardal yr awdurdod ac yn bennaf oherwydd mewnlif net uchel o bobl i Fro Morgannwg ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu 3.9 y cant o ganol 2008 i 129,000 erbyn canol 2023. Mae hyn 8,300 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 13.4 y cant o ganol 2008 i 140,700 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,400 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 7.9 y cant o ganol 2008 i 133,900 erbyn canol 2023. Mae hyn 3,400 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.


Caerdydd

Caerdydd

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Caerdydd 79,900 (neu 24.2 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r twf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i gynyddu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Nghaerdydd rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth hyd at ganol 2026 pan fydd nifer y dynion ychydig yn fwy na nifer y menywod.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (26.8 y cant a 21.7 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yng Nghaerdydd wedi cynyddu rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn parhau i gynyddu hyd at 2023/24, cyn gostwng yn araf hyd at 2029/30, a chynyddu o'r pwynt hwn tan ddiwedd cyfnod yr amcanestyniad. Mae'r cynnydd a ragwelir yn nifer y genedigaethau yng Nghaerdydd yn uwch na'r hyn a welir mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru o ganlyniad i nifer uchel y menywod o oed beichiogi (15-49) yng Nghaerdydd.


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd marwolaethau yng Nghaerdydd wedi gostwng rhwng 2003/04 a 2006/07 ac wedi cynyddu ychydig bach yn 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghaerdydd yn parhau i ostwng hyd at 2018/19 cyn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yng Nghaerdydd rhwng 2003/04 a 2007/08, a chynnydd yn y newid naturiol. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn parhau i gynyddu yng Nghaerdydd hyd at 2022/23, cyn gostwng o'r pwynt hwn dros weddill cyfnod yr amcanestyniad. Rhagwelir y bydd mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yng Nghaerdydd dros gyfnod llawn yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Er gwaethaf nifer uchel y genedigaethau yng Nghaerdydd dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn aros yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Mae gan Gaerdydd lefel is o ran Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb o'i chymharu â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru. Un rheswm dros hyn yw'r lefelau uchel o fyfyrwyr yng Nghaerdydd. Mae gan fyfyrwyr lefelau ffrwythlondeb is yn gyffredinol, ac mae hyn yn arwain at lefelau isel yn gyffredinol o ran Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod disgwyliad oes yng Nghaerdydd wedi cynyddu ar y cyfan rhwng 2003/04 a 2007/08, ac eithrio gostyngiad bach yn 2005/06.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yng Nghaerdydd gynyddu o 80.0 yn 2008/09 i 82.4 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	59,635	63,323	72,181	81,919
Oed 16-64	226,787	243,688	258,135	273,049
Oed 65+	44,093	46,931	50,769	55,493
Cyfanswm	330,515	353,942	381,086	410,461

Rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu 24.2 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru lle gwelir mai'r boblogaeth 65+oed sy'n bennaf gyfrifol am dwf y boblogaeth, mae twf y boblogaeth yng Nghaerdydd ar ei uchaf yn y grŵp oedran 0-15 oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 37.4 y cant o ganol 2008 i ganol 2023. Gallai'r twf hwn fod o ganlyniad i'r cynnydd mawr yn nifer y genedigaethau a ragwelir ym mhymtheng mlynedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad. Rhagwelir y bydd 20.4 y cant o gynnydd yn y grŵp oedran 16-64 oed yng Nghaerdydd hyd at ganol 2023, a'r rheswm dros hyn, fwy na thebyg, yw'r mewnfudiad net uchel i Gaerdydd ar gyfer y grŵp oedran hwn. Rhagwelir twf o 25.9 y cant yn nifer y bobl 65+oed; mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	263	260	280	300
Oed 65+	194	193	197	203
Cyfanswm	457	452	476	503

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yng Nghaerdydd yn cynyddu o oddeutu 460 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 500 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Nghaerdydd:

- 17,670 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 17,940 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o -270 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Caerdydd fel a ganlyn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd;
- -80 ar gyfer dynion a -200 ar gyfer menywod;
- Y lefel isaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Nghaerdydd:

- 5,510 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 2,790 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o +2,720 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Caerdydd fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+1,440 a +1,280 yn y drefn honno);
- Y lefel uchaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	4,640	2,661	-272	2,715	1.73	86	4,422	334,937
2009-10	4,732	2,628	-272	2,715	1.72	84	4,547	339,484
2010-11	4,833	2,598	-272	2,715	1.70	82	4,678	344,162
2011-12	4,944	2,572	-272	2,715	1.69	80	4,815	348,977
2012-13	5,066	2,544	-272	2,715	1.67	78	4,965	353,942
2013-14	5,196	2,513	-272	2,715	1.66	76	5,126	359,068
2014-15	5,334	2,491	-272	2,715	1.66	74	5,287	364,354
2015-16	5,472	2,470	-272	2,715	1.66	72	5,445	369,800
2016-17	5,594	2,453	-272	2,715	1.66	70	5,584	375,384
2017-18	5,696	2,438	-272	2,715	1.66	69	5,702	381,086
2018-19	5,780	2,429	-272	2,715	1.66	67	5,794	386,879
2019-20	5,842	2,429	-272	2,715	1.66	66	5,856	392,736
2020-21	5,884	2,433	-272	2,715	1.66	65	5,894	398,630
2021-22	5,911	2,441	-272	2,715	1.66	64	5,913	404,543
2022-23	5,926	2,451	-272	2,715	1.66	62	5,918	410,461
2023-24	5,930	2,463	-272	2,715	1.66	61	5,909	416,370
2024-25	5,925	2,481	-272	2,715	1.66	60	5,888	422,258
2025-26	5,918	2,502	-272	2,715	1.66	59	5,859	428,117
2026-27	5,906	2,526	-272	2,715	1.66	59	5,824	433,941
2027-28	5,896	2,551	-272	2,715	1.66	58	5,788	439,729
2028-29	5,887	2,579	-272	2,715	1.66	57	5,751	445,480
2029-30	5,882	2,610	-272	2,715	1.66	56	5,716	451,195
2030-31	5,887	2,645	-272	2,715	1.66	56	5,685	456,880
2031-32	5,900	2,684	-272	2,715	1.66	55	5,660	462,540
2032-33	5,926	2,727	-272	2,715	1.66	55	5,642	468,181

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yng Nghaerdydd yn cynyddu hyd at 2023/24 gan gyrraedd 5,930, cyn gostwng yn araf hyd at 2029/30 a chynyddu o'r pwynt hwn tan 2032/33. Y rheswm dros y cynnydd hwn yn nifer y genedigaethau yw cynnydd a ragwelir yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) yng Nghaerdydd drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, gan godi o 91,600 yng nghanol 2008 i 124,700 yng nghanol 2033. Y rheswm dros y twf hwn a ragwelir yn nifer y menywod o oed beichiogi yw mewnfudiad net uchel o fenywod 15-49 oed i Gaerdydd, oddeutu 1,500 ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghaerdydd yn gostwng hyd at 2018/19 gan gyrraedd 2,430, cyn cynyddu o'r pwynt hwn ymlaen, gan gyrraedd 2,730 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynedd oedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yng Nghaerdydd yn cynyddu o 44,100 yng nghanol 2008 i 68,400 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu yng Nghaerdydd hyd at 2022/23 gan gyrraedd 3,470 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, cyn gostwng o'r pwynt hwn dros weddill cyfnod yr amcanestyniad. Rhagwelir y bydd mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yng Nghaerdydd dros gyfnod llawn yr amcanestyniad. Y rheswm dros y gostyngiad yn y newid naturiol yw cynnydd yn nifer y marwolaethau, a hefyd nifer y genedigaethau yn sefydllogi oherwydd, er gwaethaf cynnydd mawr yn nifer y genedigaethau yn ystod 15 mlynedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd lefel genedigaethau yng Nghaerdydd yn aros yn eithaf cyson rhwng 2022/23 a 2032/33. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 2,440 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.

- Erbyn canol 2033, rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cyrraedd 468,200 (42 y cant o gynnydd). Y rheswm pennaf dros y cynnydd mawr hwn yn y boblogaeth yw'r rhagdybiaeth y bydd ymfudiad net o 2,440 o bobl i Gaerdydd ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad. Mae'r tybiaethau ynghylch ymfudo yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol yn ystod y pum mlynedd diweddaraf, ac felly mae amheuaeth a fydd y lefel uchel o ymfudo a welwyd yn y pum mlynedd diwethaf yn datblygu cyn belled â hynny yn y dyfodol. Mae'r amcanestyniadau yn seiliedig ar dueddiadau ac nid ydynt yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisiâu llywodraeth leol neu lywodraeth ganolog ar lefelau poblogaeth, dosbarthiad a newid yn y dyfodol.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion


Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu 10.0 y cant o ganol 2008 i 363,700 erbyn canol 2023. Mae hyn 46,800 yn is na'r prif amcanestyniad. Mae hyn yn tynnu sylw at effaith ymfudiad net ar dwf poblogaeth Caerdydd.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 27.4 y cant o ganol 2008 i 421,000 erbyn canol 2023. Mae hyn 10,500 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 21.1 y cant o ganol 2008 i 400,100 erbyn canol 2023. Mae hyn 10,300 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Rhondda Cynon Taf

Rhondda Cynon Taf

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Rhondda Cynon Taf 8,800 (neu 3.8 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r pumed twf isaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i gynyddu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Rhondda Cynon Taf rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (4.8 y cant a 2.7 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu ar y cyfan ers 2003/04, ac eithrio gostyngiad yn 2006/07. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) yn Rhondda Cynon Taf.


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd marwolaethau yn Rhondda Cynon Taf wedi amrywio rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn Rhondda Cynon Taf yn gostwng rhwng 2008/09 a 2018/19 cyn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwyliar ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn Rhondda Cynon Taf rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu rhwng 2008/09 a 2016/17, cyn gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad o ganlyniad i ragamcaniad o lai o enedigaethau a mwy o farwolaethau. Erbyn 2032/33, bydd y newid naturiol wedi gostwng i 40 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, yn debyg i lefelau a welwyd yn 2003/04.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Rhondda Cynon Taf yn aros yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Er bod Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn is ar y cyfan na Chyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol eraill, disgwylir i Gyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru – h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod disgwyliad oes yn Rhondda Cynon Taf wedi amrywio rhwng 2003/04 a 2007/08.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yn Rhondda Cynon Taf gynyddu o 79.0 yn 2008/09 i 81.6 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	44,506	44,083	44,794	44,893
Oed 16-64	150,917	150,180	148,767	148,189
Oed 65+	38,954	42,896	46,745	50,095
Cyfanswm	234,377	237,159	240,306	243,177

Rhagwelir y bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu 3.8 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 28.6 y cant o 39,000 yng nghanol 2008 i 50,100 yng nghanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Rhagwelir gostyngiad bach yn y grŵp oedran 16-64 yn Rhondda Cynon Taf rhwng canol 2008 a chanol 2023.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	295	294	301	303
Oed 65+	258	286	314	338
Cyfanswm	553	579	615	641

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yn Rhondda Cynon Taf yn cynyddu o oddeutu 550 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 640 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Rhondda Cynon Taf:

- 6,530 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 6,260 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +270 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Rhondda Cynon Taf fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer dynion nag ar gyfer menywod (+150 a +120 yn y drefn honno);
- Y 12^{fed} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Rhondda Cynon Taf:

- 480 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 620 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -140 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Rhondda Cynon Taf fel a ganlyn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd;
- -80 ar gyfer dynion a -60 ar gyfer menywod;
- Yr ail lefel isaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	2,902	2,506	270	-140	1.91	98	525	234,902
2009-10	2,889	2,475	270	-140	1.89	95	544	235,446
2010-11	2,875	2,448	270	-140	1.87	92	556	236,002
2011-12	2,859	2,418	270	-140	1.86	90	571	236,573
2012-13	2,845	2,388	270	-140	1.84	87	586	237,159
2013-14	2,834	2,359	270	-140	1.83	85	604	237,762
2014-15	2,829	2,336	270	-140	1.83	83	623	238,385
2015-16	2,828	2,320	270	-140	1.83	81	637	239,023
2016-17	2,821	2,308	270	-140	1.83	79	643	239,665
2017-18	2,809	2,298	270	-140	1.83	77	641	240,306
2018-19	2,792	2,291	270	-140	1.83	75	630	240,936
2019-20	2,771	2,293	270	-140	1.83	73	607	241,544
2020-21	2,748	2,301	270	-140	1.83	72	577	242,120
2021-22	2,726	2,311	270	-140	1.83	71	545	242,665
2022-23	2,705	2,322	270	-140	1.83	69	512	243,177
2023-24	2,684	2,335	270	-140	1.83	68	479	243,656
2024-25	2,664	2,351	270	-140	1.83	67	443	244,098
2025-26	2,646	2,372	270	-140	1.83	66	403	244,502
2026-27	2,631	2,393	270	-140	1.83	65	367	244,869
2027-28	2,619	2,415	270	-140	1.83	64	333	245,202
2028-29	2,608	2,440	270	-140	1.83	63	298	245,499
2029-30	2,599	2,466	270	-140	1.83	62	262	245,762
2030-31	2,593	2,490	270	-140	1.83	61	232	245,994
2031-32	2,590	2,517	270	-140	1.83	61	202	246,195
2032-33	2,589	2,549	270	-140	1.83	60	169	246,364

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn Rhondda Cynon Taf yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, o 2,900 yn 2008/09 i 2,590 yn 2032/33. Mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i ostyngiad a ragwelir yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) yn Rhondda Cynon Taf, o 55,300 yng nghanol 2008 i 51,500 yng nghanol 2033.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn Rhondda Cynon Taf yn gostwng hyd at 2018/19 gan gyrraedd 2,290, cyn codi o'r pwynt hwn ymlaen, gan gyrraedd 2,550 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yn Rhondda Cynon Taf yn cynyddu o 39,000 yng nghanol 2008 i 58,500 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn Rhondda Cynon Taf yn cynyddu rhwng 2008/09 a 2016/17 gan gyrraedd 510 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, cyn gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad o ganlyniad i ragamcaniad o lai o enedigaethau a mwy o farwolaethau. Erbyn 2032/33, rhagwelir y bydd y newid naturiol wedi gostwng i 40 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, yn debyg i lefelau a welwyd yn 2003/04. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 130 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd y newid net yn Rhondda Cynon Taf yn cynyddu i 640 yn 2016/17, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen o ganlyniad i ragamcaniad o fwy o farwolaethau a llai o enedigaethau. Erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad, disgwylir y bydd y newid net yn dal yn gadarnhaol, o ganlyniad i fewnlif net cadarnhaol o bobl i ardal yr awdurdod ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, a mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn ardal yr awdurdod lleol. Felly, disgwylir bod Rhondda Cynon Taf yn dal yn gweld twf yn y boblogaeth yno erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad, er bydd cyfradd y twf yn arafach na'r hyn a welwyd ym mhymtheng mlynedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion


Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu 2.7 y cant o ganol 2008 i 240,600 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,600 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 6.5 y cant o ganol 2008 i 249,700 erbyn canol 2023. Mae hyn 6,500 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 1.1 y cant o ganol 2008 i 236,900 erbyn canol 2023. Mae hyn 6,300 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Merthyr Tudful

Merthyr Tudful

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Merthyr Tudful 2,100 (neu 3.7 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r pedwerydd twf isaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i gynyddu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ym Merthyr Tudful rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (4.5 y cant a 3.0 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau ym Merthyr Tudful wedi cynyddu ar y cyfan ers 2003/04, ac eithrio gostyngiad bach yn 2005/06. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn aros yn eithaf cyson hyd at oddeutu 2014/15, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau'n cynyddu eto yn araf dros flynyddoedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd marwolaethau ym Merthyr Tudful wedi amrywio rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau ym Merthyr Tudful yn gostwng rhwng 2008/09 a 2019/20 cyn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwyliar ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod y newid naturiol wedi cynyddu ym Merthyr Tudful rhwng 2003/04 a 2007/08, gan ddod yn bositif (mwy o enedigaethau nag o farwolaethau) yn 2005/06. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu rhwng 2008/09 a 2015/16 yn bennaf o ganlyniad i lai o farwolaethau; fodd bynnag bydd cynnydd dilynol a ragwelir yn nifer y marwolaethau yn golygu bod y newid naturiol yn gostwng o 2015/16 ymlaen, gan sefydlogi o oddeutu 2027/28 ymlaen o ganlyniad i ychydig o gynnydd yn nifer y genedigaethau. Rhagwelir y bydd y newid naturiol ym Merthyr Tudful yn gadarnhaol drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ym Merthyr Tudful wedi codi'n uwch na'r lefel adnewyddu yn 2006/07 ac yn 2007/08. Disgwylir i Gyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru – h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi. Mae Merthyr Tudful yn un o saith awdurdod lleol sydd â Chyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb uwch na'r lefel adnewyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod disgwyliad oes ym Merthyr Tudful wedi amrywio rhwng 2003/04 a 2007/08.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes ym Merthyr Tudful gynyddu o 77.9 yn 2008/09 i 80.7 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	10,857	11,153	12,006	12,389
Oed 16-64	35,407	35,030	34,052	33,513
Oed 65+	9,292	10,031	10,958	11,712
Cyfanswm	55,556	56,214	57,017	57,614

Rhagwelir y bydd poblogaeth Merthyr Tudful yn cynyddu 3.7 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y plant ac yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu oddeutu 14.1 y cant a 26.0 y cant yn y drefn honno o ganol 2008 i ganol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Rhagwelir gostyngiad yn y boblogaeth yn y boblogaeth yn y grŵp oedran 16-64 ym Merthyr Tudful rhwng canol 2008 a chanol 2023.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	307	318	353	370
Oed 65+	262	286	322	349
Cyfanswm	569	605	674	719

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth ym Merthyr Tudful yn cynyddu o oddeutu 570 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 720 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd a ragwelir yn nifer y plant a'r bobl hŷn ym Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ym Merthyr Tudful:

- 1,320 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 1,380 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o -50 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Merthyr Tudful fel a ganlyn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd;
- -30 ar gyfer dynion a -20 ar gyfer menywod;
- Y drydedd lefel isaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ym Merthyr Tudful:

- 90 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 80 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o 10 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Merthyr Tudful fel a ganlyn:

- Tebyg ar gyfer dynion a menywod (+10 ac o gwmpas sero yn y drefn honno);
- Y 9^{fed} lefel uchaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	781	629	-54	12	2.31	106	110	55,666
2009-10	783	616	-54	12	2.29	103	124	55,790
2010-11	784	607	-54	12	2.27	100	134	55,925
2011-12	782	598	-54	12	2.25	97	141	56,066
2012-13	779	589	-54	12	2.23	95	148	56,214
2013-14	779	581	-54	12	2.22	92	156	56,370
2014-15	779	574	-54	12	2.21	89	163	56,533
2015-16	776	569	-54	12	2.21	87	165	56,697
2016-17	769	564	-54	12	2.21	85	163	56,860
2017-18	760	562	-54	12	2.21	83	156	57,017
2018-19	749	559	-54	12	2.21	81	148	57,164
2019-20	736	558	-54	12	2.21	79	135	57,300
2020-21	722	559	-54	12	2.21	77	121	57,420
2021-22	709	563	-54	12	2.21	76	104	57,524
2022-23	697	565	-54	12	2.22	75	89	57,614
2023-24	686	569	-54	12	2.22	73	75	57,689
2024-25	677	573	-54	12	2.22	72	62	57,750
2025-26	670	577	-54	12	2.22	71	51	57,802
2026-27	668	582	-54	12	2.22	70	43	57,845
2027-28	668	586	-54	12	2.22	69	40	57,884
2028-29	669	591	-54	12	2.22	68	36	57,921
2029-30	673	596	-54	12	2.22	67	35	57,956
2030-31	680	601	-54	12	2.22	66	36	57,992
2031-32	686	606	-54	12	2.22	65	38	58,030
2032-33	693	611	-54	12	2.22	65	40	58,069

(a) Yn cyfeirio at ddiwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau ym Merthyr Tudful yn aros yn eithaf cyson hyd at oddeutu 2015/16, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn gostwng hyd at oddeutu 2026/27 cyn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Poblogaeth y menywod o oed beichiogi ym Merthyr Tudful (15-49) sy'n gyfrifol am y tueddiadau yn nifer y genedigaethau, a rhagwelir y bydd hyn yn gostwng o 13,000 yng nghanol 2008 i 11,400 yng nghanol 2022, cyn cynyddu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 12,100 erbyn canol 2033. Felly, erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd llai o fenywod o oed beichiogi ym Merthyr Tudful o'i gymharu â chanol 2008, gan arwain at lai o enedigaethau.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau ym Merthyr Tudful yn gostwng hyd at 2019/20 gan gyrraedd 560, cyn cynyddu o'r pwynt hwn ymlaen, gan gyrraedd 610 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynedd oedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hyn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hyn (65+oed) ym Merthyr Tudful yn cynyddu o 9,300 yng nghanol 2008 i 13,800 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hyn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol ym Merthyr Tudful yn cynyddu rhwng 2008/09 a 2015/16 (gan gyrraedd 210 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau) yn bennaf o ganlyniad i lai o farwolaethau; fodd bynnag bydd cynnydd dilynol a ragwelir yn nifer y marwolaethau yn golygu bod y newid naturiol yn gostwng o 2015/16 ymlaen, gan sefydlogi o oddeutu 2027/28 ymlaen o ganlyniad i ychydig o gynnydd yn nifer y genedigaethau. Rhagwelir y bydd y newid naturiol ym Merthyr Tudful yn gadarnhaol drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn negyddol, gyda 40 yn fwy o bobl yn gadael ardal yr awdurdod nag yn cyrraedd yno bob blwyddyn.

- Rhagwelir y bydd y newid net ym Merthyr Tudful yn cynyddu hyd at 2015/16, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen o ganlyniad i lai o newid naturiol. Erbyn 2027/28 rhagwelir y bydd y newid net ym Merthyr Tudful wedi cyrraedd 40 ac y bydd yn aros o gwmpas y lefel hon dros weddill cyfnod yr amcanestyniad. Felly rhagwelir y bydd poblogaeth Merthyr Tudful yn tyfu ar gyfradd arafach erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad o ganlyniad i ostyngiad yn y newid net.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Merthyr Tudful yn cynyddu 5.1 y cant o ganol 2008 i 58,400 erbyn canol 2023. Mae hyn 800 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 6.8 y cant o ganol 2008 i 59,300 erbyn canol 2023. Mae hyn 1,700 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 0.7 y cant o ganol 2008 i 56,000 erbyn canol 2023. Mae hyn 1,700 yn is na'r prif amcanestyniad.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Caerffili

Caerffili

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Caerffili 7,600 (neu 4.4 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r seithfed twf isaf ar y cyd mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i gynyddu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Nghaerffili rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir ychydig mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (4.7 y cant a 4.0 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yng Nghaerffili wedi cynyddu rhwng 2004/05 a 2007/08. Er gwaethaf cynnydd bach a ragwelwyd yn 2008/09, rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau yng Nghaerffili yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Y rheswm, fwy na thebyg, dros hyn yw gostyngiad yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) ym mhymtheng mlynedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad.


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd marwolaethau yng Nghaerffili wedi amrywio ar y cyfan rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghaerffili yn gostwng rhwng 2008/09 ac oddeutu 2016/17 cyn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net


Gwelwyd mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yng Nghaerffili rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yng Nghaerffili yn aros yn eithaf cyson ym mlyneddoldd cychwynol cyfnod yr amcanestyniad rhwng 470 a 490 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, cyn gostwng o oddeutu 2015/16 ymlaen o ganlyniad i lai o enedigaethau a mwy o farwolaethau. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn parhau i ostwng hyd at ddiwedd cyfnod yr amcanestyniad, ac erbyn 2032/33 rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau a'r marwolaethau tua'r un fath.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yng Nghaerffili yn aros yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Disgwylir i Gyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru - h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod disgwyliad oes yng Nghaerffili wedi bod yn cynyddu ar y cyfan hyd at 2007/08 ac eithrio gostyngiadau bach yn 2004/05 ac yn 2006/07.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yng Nghaerffili gynyddu o 79.1 yn 2008/09 i 81.7 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	34,150	33,671	33,939	33,882
Oed 16-64	110,317	109,728	108,498	107,603
Oed 65+	27,896	31,607	35,235	38,428
Cyfanswm	172,363	175,006	177,672	179,914

Rhagwelir y bydd poblogaeth Caerffili yn cynyddu 4.4 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm pennaf dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 37.8 y cant o 27,900 yng nghanol 2008 i 38,400 yng nghanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Rhagwelir gostyngiad bach yng Nghaerffili yn nifer y plant ac yn y grŵp pobl 16-64 oed rhwng canol 2008 a chanol 2023.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	310	307	313	315
Oed 65+	253	288	325	357
Cyfanswm	562	595	638	672

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yng Nghaerffili yn cynyddu o oddeutu 560 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 670 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn y boblogaeth 65+oed sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Nghaerffili:

- 4,430 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 4,230 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +200 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Caerffili fel a ganlyn:

- Positif ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael;
- Uwch ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion (+110 a +90 yn y drefn honno);
- Y 9^{fed} lefel isaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Nghaerffili:

- 90 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 240 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -150 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Caerffili fel a ganlyn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, sy'n dangos bod mwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd;
- -80 ar gyfer dynion a -70 ar gyfer menywod;
- Y lefel isaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	2,187	1,711	199	-145	2.05	95	530	172,893
2009-10	2,173	1,701	199	-145	2.03	92	525	173,418
2010-11	2,159	1,684	199	-145	2.01	90	529	173,947
2011-12	2,147	1,671	199	-145	2.00	87	530	174,476
2012-13	2,135	1,659	199	-145	1.98	85	530	175,006
2013-14	2,128	1,648	199	-145	1.97	82	533	175,539
2014-15	2,126	1,643	199	-145	1.97	80	537	176,076
2015-16	2,125	1,639	199	-145	1.97	78	539	176,615
2016-17	2,119	1,639	199	-145	1.97	76	534	177,149
2017-18	2,110	1,640	199	-145	1.97	75	523	177,672
2018-19	2,098	1,645	199	-145	1.97	73	507	178,179
2019-20	2,082	1,654	199	-145	1.97	72	482	178,661
2020-21	2,062	1,665	199	-145	1.97	70	451	179,112
2021-22	2,042	1,677	199	-145	1.97	69	419	179,530
2022-23	2,023	1,693	199	-145	1.97	67	383	179,914
2023-24	2,005	1,710	199	-145	1.97	66	349	180,262
2024-25	1,988	1,726	199	-145	1.97	65	316	180,578
2025-26	1,975	1,747	199	-145	1.97	64	281	180,859
2026-27	1,962	1,767	199	-145	1.97	63	248	181,108
2027-28	1,952	1,790	199	-145	1.97	62	216	181,323
2028-29	1,943	1,810	199	-145	1.97	61	186	181,510
2029-30	1,935	1,835	199	-145	1.97	60	154	181,663
2030-31	1,928	1,859	199	-145	1.97	60	122	181,786
2031-32	1,922	1,886	199	-145	1.97	59	90	181,875
2032-33	1,920	1,914	199	-145	1.97	59	59	181,935

(a) Yn cyfeirio at ddiwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yng Nghaerffili yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, o 2,190 yn 2008/09 i 1,920 yn 2032/33. Y rheswm dros y gostyngiad yn y ffigurau genedigaethau yw gostyngiad a ragwelir yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) o 40,200 yng nghanol 2008 i 36,800 yng nghanol 2024. O ganol 2024 disgwylir i nifer y menywod o oed beichiogi yng Nghaerffili aros yn eithaf cyson.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghaerffili yn gostwng hyd at oddeutu 2016/17 gan gyrraedd 1,640, cyn cynyddu o'r pwynt hwn ymlaen, gan gyrraedd 1,910 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yng Nghaerffili yn cynyddu o 27,900 yng nghanol 2008 i 45,800 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yng Nghaerffili yn aros yn eithaf cyson ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad rhwng 470 a 490 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, cyn gostwng o oddeutu 2015/16 ymlaen o ganlyniad i lai o enedigaethau a mwy o farwolaethau. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn parhau i ostwng hyd at ddiwedd cyfnod yr amcanestyniad, ac erbyn 2032/33 rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau a'r marwolaethau tua'r un fath. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 50 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd y newid net yng Nghaerffili yn aros yn eithaf cyson hyd at oddeutu 2015/16, gan aros o gwmpas rhwng 520 a 540. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y newid net yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad o ganlyniad i lai o newid naturiol, sy'n disgyn i oddeutu 60 erbyn 2032/33. Erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad, mae dal disgwyl i boblogaeth Caerffili gynyddu, ond ar gyfradd arafach na'r hyn a welwyd ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad. Y disgwyl yw y bydd y newid naturiol felly ynghyd â chyfraniad bach o fewnfudiad net yn gyfrifol am y cynnydd a ragwelir ym mhoblogaeth Caerffili.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion


Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Caerffili yn cynyddu 4.0 y cant o ganol 2008 i 179,200 erbyn canol 2023. Mae hyn 700 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 7.2 y cant o ganol 2008 i 184,700 erbyn canol 2023. Mae hyn 4,800 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 1.7 y cant o ganol 2008 i 175,200 erbyn canol 2023. Mae hyn 4,700 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Blaenau Gwent

Blaenau Gwent

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Blaenau Gwent 2,300 (neu 3.4 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r trydydd twf isaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i gynyddu hyd at ganol 2031, cyn gweld gostyngiad bach iawn yn nwy flynedd ddiwethaf cyfnod yr amcanestyniad.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ym Mlaenau Gwent rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y bydd y boblogaeth dynion a menywod yn cynyddu ar yr un gyfradd (3.4 y cant).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau ym Mlaenau Gwent wedi amrywio rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau yn cynyddu'n araf iawn hyd at 2015/16, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen hyd at 2029/30.


Gwelwyd bod nifer y marwolaethau ym Mlaenau Gwent rhwng 2003/04 a 2007/08 wedi gostwng bob blwyddyn ac eithrio yn 2006/07. Rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n parhau i ostwng hyd at oddeutu 2019/20, cyn cynyddu o'r pwynt hwn ymlaen. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Gwelwyd mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ym Mlaenau Gwent rhwng 2003/04 a 2006/07, ond yn 2007/08 daeth y newid naturiol yn gadarnhaol. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu hyd at 2016/17 gan gyrraedd 160 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y marwolaethau. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng o ganlyniad i lai o enedigaethau a mwy o farwolaethau, a rhagwelir y bydd yn mynd yn negyddol yn 2027/28.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ym Mlaenau Gwent yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) rhwng 2003/04 a 2006/07, gan godi'n uwch na'r lefel adnewyddu yn 2007/08. Disgwylir i Gyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru - h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod disgwyliad oes ym Mlaenau Gwent wedi cynyddu ar y cyfan hyd at 2007/08.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes ym Mlaenau Gwent gynyddu o 78.2 yn 2008/09 i 81.0 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	12,902	12,734	13,390	14,003
Oed 16-64	43,604	43,176	42,323	41,623
Oed 65+	12,253	13,514	14,637	15,469
Cyfanswm	68,759	69,424	70,349	71,095

Rhagwelir y bydd poblogaeth Blaenau Gwent yn cynyddu 3.4 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y plant ac yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 8.5 y cant a 26.2 y cant yn y drefn honno rhwng canol 2008 a chanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Rhagwelir gostyngiad yn y grŵp oedran 16-64 ym Mlaenau Gwent rhwng canol 2008 a chanol 2023.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	296	295	316	336
Oed 65+	281	313	346	372
Cyfanswm	577	608	662	708

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth ym Mlaenau Gwent yn cynyddu o oddeutu 580 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 710 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y plant ac yn y boblogaeth 65+oed sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ym Mlaenau Gwent:

- 1,620 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 1,570 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +50 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Blaenau Gwent fel a ganlyn:

- +50 ar gyfer menywod ac o gwmpas sero ar gyfer dynion;
- Y 6^{ed} lefel isaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd ym Mlaenau Gwent:

- 60 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 70 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -10 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Blaenau Gwent fel a ganlyn:

- -10 ar gyfer dynion ac o gwmpas sero ar gyfer menywod;
- Y 12^{fed} lefel uchaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol- flwyddyn
2008-09	880	813	47	-12	2.10	102	102	68,861
2009-10	886	802	47	-12	2.08	99	119	68,980
2010-11	890	791	47	-12	2.07	97	134	69,114
2011-12	893	779	47	-12	2.05	94	149	69,262
2012-13	895	768	47	-12	2.03	91	161	69,424
2013-14	897	758	47	-12	2.02	89	173	69,597
2014-15	899	752	47	-12	2.02	87	182	69,780
2015-16	899	745	47	-12	2.02	84	189	69,968
2016-17	897	740	47	-12	2.02	82	192	70,161
2017-18	891	738	47	-12	2.02	80	188	70,349
2018-19	881	735	47	-12	2.02	78	181	70,530
2019-20	869	735	47	-12	2.02	77	168	70,698
2020-21	855	739	47	-12	2.02	75	151	70,849
2021-22	840	742	47	-12	2.02	74	133	70,982
2022-23	824	746	47	-12	2.02	72	113	71,095
2023-24	809	752	47	-12	2.02	71	92	71,187
2024-25	796	757	47	-12	2.02	70	74	71,261
2025-26	785	762	47	-12	2.02	69	58	71,319
2026-27	777	770	47	-12	2.02	68	42	71,361
2027-28	771	779	47	-12	2.02	67	28	71,389
2028-29	768	785	47	-12	2.02	66	18	71,407
2029-30	767	792	47	-12	2.02	65	9	71,416
2030-31	767	801	47	-12	2.02	65	1	71,418
2031-32	769	810	47	-12	2.02	64	-6	71,412
2032-33	773	821	47	-12	2.02	63	-12	71,399

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau ym Mlaenau Gwent yn cynyddu'n araf iawn hyd at oddeutu 2015/16 gan gyrraedd 900 o enedigaethau, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen hyd at oddeutu 2029/30. Erbyn 2032/33, rhagwelir y bydd oddeutu 100 yn llai o enedigaethau ym Mlaenau Gwent nag yn 2008/09, a gall hyn fod o ganlyniad i'r effaith carfan oedran, hynny yw, rhagwelir y bydd mwy o fenywod o oed cario plant (15-49) ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad nag yn yr hanner olaf. Poblogaeth y menywod o oed lefel ffrwythlondeb uchel (25-34) sy'n bennaf gyfrifol am nifer y genedigaethau, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu o 3,800 yng nghanol 2008 i 4,900 yng nghanol 2019, cyn gostwng ar gyfer gweddill cyfnod yr amcanestyniad.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau ym Mlaenau Gwent yn gostwng hyd at oddeutu 2019/20 gan gyrraedd 740, cyn cynyddu o'r pwynt hwn ymlaen, gan gyrraedd 820 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hyn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hyn (65+oed) ym Mlaenau Gwent yn cynyddu o 12,300 yng nghanol 2008 i 18,100 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hyn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol ym Mlaenau Gwent yn cynyddu hyd at 2016/17 gan gyrraedd 160 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y marwolaethau. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng o ganlyniad i lai o enedigaethau a mwy o farwolaethau, a rhagwelir y bydd yn mynd yn negyddol yn 2027/28. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 40 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn.

- Rhagwelir y bydd y newid net ym Mlaenau Gwent yn cynyddu hyd at oddeutu 2016/17, gan gyrraedd 190. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y newid net yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad o ganlyniad i lai o newid naturiol, a rhagwelir y bydd yn mynd yn negyddol erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad o ganlyniad i fwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn ardal yr awdurdod lleol, a chyfraniad cymharol fach yn sgil mewnfudiad net. Felly, bydd y newid net negyddol hwn yn golygu gostyngiad bach ym mhoblogaeth Blaenau Gwent erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Blaenau Gwent yn cynyddu 3.1 y cant o ganol 2008 i 70,900 erbyn canol 2023. Mae hyn 200 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 6.4 y cant o ganol 2008 i 73,100 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,000 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 0.5 y cant o ganol 2008 i 69,100 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,000 yn is na'r prif amcanestyniad. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn gostwng o ganol 2024 ymlaen.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Tor-faen

Torfaen

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Torfaen yn aros yn gymharol gyson ym mlynnyddoedd cynnar y cyfnod amcanestyniad. O ganol 2019 ymlaen, rhagwelir y bydd poblogaeth Torfaen yn gostwng dros weddill cyfnod yr amcanestyniad, ac erbyn canol 2033 rhagwelir y bydd y boblogaeth wedi gostwng 1,500 (1.6 y cant) o ganol 2008. Torfaen yw'r unig awdurdod lleol lle rhagwelir gostyngiad yn y boblogaeth dros cyfnod yr amcanestyniad.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Nhorfaen rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y bydd y boblogaeth dynion a menywod yn aros yn eithaf cyson.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yn Nhorfaen wedi amrywio rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau yn gostwng yn araf ar y cyfan ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, cyn gostwng ar gyfradd gyflymach o oddeutu 2016/17 ymlaen.


Gostyngodd nifer y marwolaethau yn Nhorfaen yn 2005/06 a chynyddu o'r pwynt hwn hyd at 2007/08. Rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n parhau i ostwng hyd at oddeutu 2018/19, cyn cynyddu o'r pwynt hwn ymlaen. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwyliar ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net

Gwelwyd mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn Nhorfaen rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu'n araf ym mlyneddol cyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 120 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau erbyn 2015/16. O 2016/17 ymlaen, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng o ganlyniad i nifer y genedigaethau yn gostwng ar gyfradd gyflymach a mwy o farwolaethau, ac erbyn 2025/26 rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn Nhorfaen. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn parhau i ostwng dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Nhorfaen wedi codi'n uwch na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yn 2005/06 cyn gostwng yn is na'r lefel adnewyddu o'r pwynt hwn ymlaen. Disgwylir i Gyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru - h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod disgwyliad oes yn Nhorfaen wedi amrywio rhwng 2003/04 a 2007/08, gan godi i rif uchel o 80.6 yn 2005/06.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yn Nhorfaen gynyddu o 79.8 yn 2008/09 i 82.3 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	17,381	16,702	16,942	16,848
Oed 16-64	56,962	55,793	53,863	52,424
Oed 65+	16,302	18,164	19,963	21,392
Cyfanswm	90,645	90,658	90,768	90,664

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Torfaen yn aros yn gymharol gyson hyd at ganol 2023.

Rhagwelir y bydd gostyngiad yn Nhorfaen yn nifer y plant ac yn nifer y bobl 16-64 oed o ganol 2008 hyd at ganol 2023 (3.1 y cant a 8.0 y cant yn y drefn honno), ond disgwylir gweld 31.2 y cant o gynnydd yn nifer y bobl 65+oed. Y rheswm dros y gostyngiad yn y boblogaeth 16-64 oed yw allfudiad net o bobl 16-64 oed ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	305	299	315	321
Oed 65+	286	326	371	408
Cyfanswm	591	625	685	729

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yn Nhorfaen yn cynyddu o oddeutu 590 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 730 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Gostyngiad yn y boblogaeth 16-64 oed hyd at ganol 2023 sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn, sy'n golygu bod cyfran uwch o blant a phensiynwyr.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Nhorfaen:

- 2,330 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 2,370 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o -30 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Torfaen fel a ganlyn:

- -40 ar gyfer dynion a +10 ar gyfer menywod;
- Y 4^{edd} lefel isaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Nhorfaen:

- 40 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 110 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -70 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Torfaen fel a ganlyn:

- -30 ar gyfer dynion a menywod;
- Y 6^{ed} lefel isaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	1,056	967	-33	-65	2.00	90	-10	90,635
2009-10	1,056	959	-33	-65	1.98	88	-2	90,634
2010-11	1,053	950	-33	-65	1.96	85	5	90,639
2011-12	1,049	942	-33	-65	1.94	83	8	90,647
2012-13	1,046	936	-33	-65	1.93	81	11	90,658
2013-14	1,044	929	-33	-65	1.92	79	17	90,675
2014-15	1,044	924	-33	-65	1.92	77	22	90,697
2015-16	1,044	920	-33	-65	1.92	75	26	90,723
2016-17	1,041	918	-33	-65	1.92	73	25	90,748
2017-18	1,034	916	-33	-65	1.92	71	20	90,768
2018-19	1,024	914	-33	-65	1.92	70	12	90,781
2019-20	1,013	916	-33	-65	1.92	68	-1	90,779
2020-21	999	918	-33	-65	1.92	67	-18	90,761
2021-22	983	924	-33	-65	1.92	66	-39	90,722
2022-23	969	930	-33	-65	1.92	64	-59	90,664
2023-24	958	935	-33	-65	1.92	63	-75	90,589
2024-25	948	941	-33	-65	1.92	62	-91	90,497
2025-26	938	948	-33	-65	1.92	61	-109	90,389
2026-27	929	956	-33	-65	1.92	60	-125	90,264
2027-28	921	965	-33	-65	1.92	59	-142	90,121
2028-29	913	973	-33	-65	1.92	59	-158	89,963
2029-30	906	983	-33	-65	1.92	58	-175	89,788
2030-31	900	996	-33	-65	1.92	57	-195	89,593
2031-32	896	1,007	-33	-65	1.92	57	-210	89,383
2032-33	893	1,021	-33	-65	1.92	56	-226	89,157

(a) Yn cyfeirio at ddigwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau yn Nhorfaen yn gostwng yn araf ar y cyfan ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, cyn gostwng ar gyfradd gyflymach o oddeutu 2016/17 ymlaen. Yr hyn sy'n gyfrifol am y gostyngiad yn nifer y genedigaethau yw gostyngiad cyffredinol yn nifer y menywod o oed beichiogi (15-49) yn Nhorfaen o 20,400 yng nghanol 2008 i 17,800 yng nghanol 2033. Disgwylir i boblogaeth y menywod o oed lefel ffrwythlondeb uchel (25-34) gynyddu hyd at ganol 2019, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen, a gallai'r gostyngiad hwn gyfrannu at y gostyngiad yn y ffigurau genedigaethau tua chanol cyfnod yr amcanestyniad.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn Nhorfaen yn gostwng hyd at oddeutu 2018/19 gan gyrraedd 910, cyn cynyddu o'r pwynt hwn ymlaen, gan gyrraedd 1020 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn (65+oed) yn Nhorfaen yn cynyddu o 16,300 yng nghanol 2008 i 24,700 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn Nhorfaen yn cynyddu'n araf ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 120 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau erbyn 2015/16. O 2016/17 ymlaen, rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng o ganlyniad i nifer y genedigaethau yn gostwng ar gyfradd gyflymach a mwy o farwolaethau, ac erbyn 2025/26 rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn Nhorfaen. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn parhau i ostwng dros weddill cyfnod yr amcanestyniad. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn negyddol, gyda 100 yn fwy o bobl yn gadael ardal yr awdurdod nag yn cyrraedd yno bob blwyddyn.

- Mae'r newid net o gwmpas sero ar gyfer Torfaen ar gyfer blynyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, ac yn sgil hyn disgwylir i'r boblogaeth fod yn gymharol gyson yn Nhorfaen ym mlynnyddoedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad. Disgwylir i'r newid net gynyddu o ganlyniad i fwy o newid naturiol, ond rhagwelir y bydd y newid net yn dal yn gymharol fach (oddeutu 30 ar ei uchaf), ac o ganlyniad, bydd poblogaeth Torfaen yn aros yn eithaf cyson. O 2015/16 ymlaen, rhagwelir y bydd y newid net yn gostwng, gan fynd yn negyddol yn 2019/20 sy'n arwain at ostyngiad yn y boblogaeth yn Nhorfaen. Erbyn 2032/33, rhagwelir y bydd y newid net yn Nhorfaen yn ostyngiad o 230, o ganlyniad i fwy o enedigaethau nag o farwolaethau yn ardal yr awdurdod a mwy o bobl yn gadael ardal yr awdurdod nag yn cyrraedd ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Torfaen yn cynyddu 2.2 y cant o ganol 2008 i 92,700 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,000 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 2.7 y cant o ganol 2008 i 93,100 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,400 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn gostwng 2.6 y cant o ganol 2008 i 88,300 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,400 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Sir Fynwy

Sir Fynwy

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir Fynwy 4,600 (neu 5.3 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r degfed twf isaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i gynyddu hyd at ganol 2023 gan gyrraedd 93,900.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Sir Fynwy rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (5.8 y cant a 4.8 y cant yn y drefn honno).




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yn Sir Fynwy wedi gostwng rhwng 2003/04 a 2005/06 cyn cynyddu hyd at 2007/08.

Rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau yn gostwng hyd at 2013/14 cyn cynyddu hyd at 2021/22 a disgwylir i'r gyfradd ostwng dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.

Gwelwyd bod nifer y marwolaethau yn Sir Fynwy wedi amrywio rhwng 2003/04 a 2007/08. Er gwaethaf yr amrywiadau bach, rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau yn cynyddu'n araf ym mlynnyddoedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad, cyn cynyddu ar gyfradd gyflymach o oddeutu 2014/15 ymlaen. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau yng Nghymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yn Sir Fynwy yn y pum mlynedd hyd at 2007/08, ac eithrio yn 2004/05 pan welwyd oddeutu 20 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, gan ddod yn eithaf cyson rhwng 2011/12 a 2018/19, ac yna mae disgwyl iddo ostwng ar gyfradd gyflymach o'r pwynt hwn ymlaen tan ddiwedd cyfnod yr amcanestyniad. Mae Sir Fynwy yn un o ddim ond wyth awdurdod lleol yng Nghymru y rhagwelir y byddant yn gweld mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ar draws cyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudiad mewnol cadarnhaol, gallai poblogaeth Sir Fynwy ddirywio.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Sir Fynwy wedi codi'n uwch na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yn 2006/07 ac yn 2007/08, a rhagwelir y bydd yn aros yn uwch na'r lefel adnewyddu hyd at oddeutu 2014/15. Disgwylir i Gyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru - h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi. O oddeutu 2014/15 ymlaen, rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn aros yn agos at y gyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu dros weddill cyfnod yr amcanestyniad. Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes


Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod disgwyliad oes yn Sir Fynwy wedi cynyddu i 81.1 hyd at 2004/05, cyn gostwng rhywfaint yn y ddwy flynedd ganlynol, a chynyddu yn ôl i 81.1 yn 2007/08. Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yn Sir Fynwy gynyddu o 81.6 yn 2008/09 i 83.9 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	16,283	15,511	15,528	15,445
Oed 16-64	53,944	53,424	52,227	51,349
Oed 65+	17,610	20,551	23,268	25,678
Cyfanswm	87,837	89,487	91,024	92,473

Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Fynwy yn cynyddu 5.3 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 45.8 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Mae nifer o ffactorau yn gyfrifol am y cynnydd hwn yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach; y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd; a mewnfudiad net o bobl oed 65+ i mewn i Sir Fynwy ym mhob blwyddyn o'r cyfnod amcanestyniad. Rhagwelir gostyngiad yn nifer y plant ac yn y grŵp pobl 16-64 oed yn Sir Fynwy rhwng canol 2008 a chanol 2023.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	302	290	297	301
Oed 65+	326	385	446	500
Cyfanswm	628	675	743	801

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yn Sir Fynwy yn cynyddu o oddeutu 630 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 800 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn y boblogaeth 65+oed sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Sir Fynwy:

- 4,360 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 3,920 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o +440 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Sir Fynwy fel a ganlyn:

- +220 ar gyfer dynion a menywod;
- Y 9^{fed} lefel uchaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yn Sir Fynwy:

- 150 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 220 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -70 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Sir Fynwy fel a ganlyn:

- -40 ar gyfer dynion a -30 ar gyfer menywod;
- Y 5^{ed} lefel isaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	846	861	439	-67	2.16	75	357	88,194
2009-10	830	862	439	-67	2.15	73	340	88,535
2010-11	817	861	439	-67	2.13	71	327	88,862
2011-12	808	865	439	-67	2.11	69	315	89,177
2012-13	803	865	439	-67	2.09	67	310	89,487
2013-14	802	865	439	-67	2.08	65	309	89,795
2014-15	804	868	439	-67	2.07	64	308	90,104
2015-16	809	873	439	-67	2.07	62	308	90,411
2016-17	814	880	439	-67	2.07	61	306	90,717
2017-18	820	886	439	-67	2.07	60	306	91,024
2018-19	826	891	439	-67	2.07	58	307	91,330
2019-20	829	901	439	-67	2.07	57	300	91,631
2020-21	832	911	439	-67	2.07	56	293	91,923
2021-22	833	923	439	-67	2.07	55	282	92,205
2022-23	831	935	439	-67	2.07	54	268	92,473
2023-24	828	948	439	-67	2.07	53	252	92,725
2024-25	824	961	439	-67	2.07	52	235	92,960
2025-26	819	974	439	-67	2.08	51	217	93,177
2026-27	812	992	439	-67	2.08	51	192	93,369
2027-28	805	1,010	439	-67	2.08	50	167	93,536
2028-29	796	1,028	439	-67	2.08	50	140	93,676
2029-30	786	1,046	439	-67	2.08	49	112	93,788
2030-31	777	1,066	439	-67	2.08	49	83	93,871
2031-32	768	1,087	439	-67	2.08	48	53	93,924
2032-33	760	1,110	439	-67	2.08	48	21	93,945

(a) Yn cyfeirio at ddiwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau yn Sir Fynwy yn gostwng hyd at 2013/14 cyn cynyddu hyd at 2021/22 a disgwylir i'r gyfradd ostwng wedyn dros weddill cyfnod yr amcanestyniad. Nifer y menywod o oed lefel ffrwythlondeb uchel (25-34) sy'n gyfrifol am batrwm y genedigaethau, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu o 3,500 yng nghanol 2008 i 4,300 yng nghanol 2022, cyn gostwng i 3,500 yng nghanol 2032.
- Er gwaethaf yr amrywiadau bach, rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau yn Sir Fynwy yn cynyddu'n araf ym mlynnyddoedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad, cyn cynyddu ar gyfradd gyflymach o oddeutu 2014/15 ymlaen. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau yng Nghymru. Y rheswm dros y cynnydd a ragwelir yn y ffigurau marwolaethau yw cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl hŷn yn Sir Fynwy, yn cynyddu o 17,600 yng nghanol 2008 i 31,200 yng nghanol 2033.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn Sir Fynwy yn gostwng ym mlynnyddoedd cychwynnol cyfnod yr amcanestyniad, gan ddod yn eithaf cyson rhwng 2011/12 a 2018/19, ac yna mae disgwyl iddo ostwng ar gyfradd gyflymach o'r pwynt hwn ymlaen tan ddiwedd cyfnod yr amcanestyniad, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y genedigaethau ar ôl 2021/22 ynghyd â mwy o farwolaethau. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn gadarnhaol, gyda 370 yn fwy o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod nag yn gadael bob blwyddyn. Mae Sir Fynwy yn un o ddim ond wyth awdurdod lleol yng Nghymru y rhagwelir y byddant yn gweld mwy o farwolaethau nag o enedigaethau ar draws cyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudiad mewnol cadarnhaol, gallai poblogaeth Sir Fynwy ddirywio.
- Rhagwelir y bydd y newid net yn Sir Fynwy yn gostwng ar y cyfan drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, o 360 yn 2008/09 i 20 yn 2032/33. Y newid naturiol fwyfwy negyddol yw'r rheswm dros y gostyngiad hwn. Felly disgwylir mai'r hyn a fydd yn gyfrifol am dwf poblogaeth Sir Fynwy yw mewnfudiad net, er mae cyfraniad hynny yn cael ei ddileu bron erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad gan y newid naturiol negyddol, sy'n golygu bod twf y boblogaeth yn arafach yn Sir Fynwy.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion


Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Fynwy yn cynyddu 0.2 y cant o ganol 2008 i 88,000 erbyn canol 2023. Mae hyn 4,400 yn is na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 7.7 y cant o ganol 2008 i 94,600 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,100 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 3.0 y cant o ganol 2008 i 90,400 erbyn canol 2023. Mae hyn 2,000 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.




Casnewydd

Casnewydd

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth

Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Casnewydd 8,800 (neu 6.3 y cant) yn fwy erbyn canol 2023. Dyma'r deuddegfed twf uchaf mewn poblogaeth at ganol 2023 o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i gynyddu dros gyfnod yr amcanestyniad, gan gyrraedd 153,600 erbyn canol 2023.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Nghasnewydd rhagwelir y bydd mwy o fenywod nag o ddynion yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhwng canol 2008 a chanol 2023 rhagwelir y ceir mwy o dwf yn y boblogaeth dynion nag yn y boblogaeth menywod (8.3 y cant a 4.4 y cant yn y drefn honno). Erbyn canol 2023, bydd cyfran y dynion a'r menywod yng Nghasnewydd yn debyg iawn, ar 49.9 y cant a 50.1 y cant yn y drefn honno.




Poblogaeth ar 30^{ain} Mehefin bob blwyddyn.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod cyfradd genedigaethau yng Nghasnewydd wedi aros yn eithaf cyson hyd at oddeutu 2006/07, ac wedi cynyddu hyd at 2007/08. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau yng Nghasnewydd yn cynyddu hyd at 2018/19 gan gyrraedd 2,080, cyn gostwng o'r pwynt hwn ymlaen at 2030/31, ac yna cynyddu ychydig yn nwy flynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.


Gwelwyd bod nifer y marwolaethau yng Nghasnewydd wedi aros yn eithaf cyson rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd cyfradd marwolaethau'n gostwng rhwng 2008/09 a 2018/19, cyn cynyddu o'r pwynt hwn ymlaen dros weddill cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 4: Newid Naturiol ac Ymfudiad Net


Gwelwyd mwy o enedigaethau nag o farwolaethau yng Nghasnewydd rhwng 2003/04 a 2007/08. Rhagwelir y bydd y newid naturiol yn cynyddu hyd at 2018/19, gan gyrraedd 860 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, ond o'r pwynt hwn ymlaen rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, o ganlyniad i ragamcaniad o lai o enedigaethau a mwy o farwolaethau. Er gwaethaf y gostyngiad, erbyn 2032/33 rhagwelir y bydd y newid naturiol yn dal yn uchel ar oddeutu 640 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Siart 5: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yng Nghasnewydd yn is na chyfradd ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) rhwng 2003/04 a 2006/07, gan godi'n uwch na'r lefel adnewyddu yn 2007/08 i 2.3 plentyn am bob menyw. Disgwylir i Gyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru – h.y. amcanestyniad o ostyngiad ar y dechrau cyn sefydlogi. Mae Casnewydd yn un o saith awdurdod lleol sydd â Chyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb uwch na'r lefel adnewyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.




Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sy'n ofynnol er mwyn i'r boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint, a hynny ar sail cyfraddau marwolaethau cyson a dim ymfudo.

Siart 6: Disgwyliad Oes

Yn ôl y data gwirioneddol diweddaraf gwelwyd bod disgwyliad oes yng Nghasnewydd wedi cynyddu ar y cyfan rhwng 2003/04 a 2007/08, er gwaethaf gostyngiadau bach yn 2004/05 ac yn 2007/08.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i ddisgwyliad oes yng Nghasnewydd gynyddu o 79.7 yn 2008/09 i 82.3 yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros ddeng mlynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad.



Digwyddiadau wedi'u nodi yn erbyn cychwyn cyfnod canol blwyddyn.

Tabl 1: Newid mewn poblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2008	2013	2018	2023
Plant	28,574	28,793	30,084	31,886
Oed 16-64	88,062	88,355	88,407	88,235
Oed 65+	23,026	24,912	26,664	28,298
Cyfanswm	139,662	142,060	145,154	148,418

Rhagwelir y bydd poblogaeth Casnewydd yn cynyddu 6.3 y cant rhwng canol 2008 a chanol 2023. Y rheswm dros y cynnydd hwn yw cynnydd yn nifer y plant ac yn nifer y bobl 65+ oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 11.6 y cant a 22.9 y cant yn y drefn honno rhwng canol 2008 a chanol 2023. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y bobl hŷn; yn gyntaf disgwyliad oes hirach sy'n golygu y bydd mwy o bobl yn byw yn hirach ac, yn ail, y ffaith bod carfannau mawr yn heneiddio, megis y rheini a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Rhagwelir y bydd y boblogaeth 16-64 oed yng Nghasnewydd yn aros yn eithaf cyson rhwng canol 2008 a chanol 2023.

Tabl 2: Dibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed, blynyddoedd dethol

	2008	2013	2018	2023
Plant	324	326	340	361
Oed 65+	261	282	302	321
Cyfanswm	586	608	642	682

Ar 30^{ain} Mehefin 2008, roedd oddeutu 576 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng Nghymru. Yma, mae dibynyddion yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 15 oed a phobl 65+ oed.

Dros gyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y gymhareb ddibyniaeth yng Nghasnewydd yn cynyddu o oddeutu 590 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2008 i 680 fesul 1,000 o bobl 16-64 oed yng nghanol 2023. Cynnydd yn nifer y plant ac yn y boblogaeth 65+ oed sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn.

Ymfudo net mewnol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Nghasnewydd:

- 4,880 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o weddill y DU;
- 5,040 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod am weddill y DU;
- Ymfudo mewnol net o -150 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo mewnol net ar gyfer Casnewydd fel a ganlyn:

- -30 ar gyfer dynion a -120 ar gyfer menywod;
- Yr ail lefel isaf o ymfudo net mewnol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ymfudo net rhyngwladol yn ôl rhyw

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd y canlynol yn digwydd yng Nghasnewydd:

- 530 o bobl yn cyrraedd ardal yr awdurdod o dramor;
- 570 o bobl yn gadael ardal yr awdurdod i fynd tramor;
- Ymfudo rhyngwladol net o -40 o bobl.

Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo rhyngwladol net ar gyfer Casnewydd fel a ganlyn:

- -30 ar gyfer dynion a -10 ar gyfer menywod;
- Y 9^{fed} lefel isaf o ymfudo net rhyngwladol ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 3: Cydrannau'r Newid, blynyddoedd allweddol

Blwyddyn (a)	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU Net	Ymfudwyr Tramor Net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb Marwolaethau Safonedig	Newid Net	Poblogaeth ar ddiwedd y canol flwyddyn
2008-09	1,970	1,345	-151	-39	2.30	87	436	140,098
2009-10	1,972	1,324	-151	-39	2.28	85	459	140,556
2010-11	1,977	1,312	-151	-39	2.26	82	475	141,032
2011-12	1,984	1,294	-151	-39	2.24	80	500	141,532
2012-13	1,994	1,277	-151	-39	2.22	78	528	142,060
2013-14	2,008	1,257	-151	-39	2.21	76	561	142,621
2014-15	2,028	1,244	-151	-39	2.20	74	594	143,215
2015-16	2,049	1,234	-151	-39	2.20	72	625	143,840
2016-17	2,066	1,227	-151	-39	2.20	71	650	144,490
2017-18	2,077	1,223	-151	-39	2.20	69	664	145,154
2018-19	2,082	1,219	-151	-39	2.20	67	673	145,827
2019-20	2,079	1,219	-151	-39	2.20	66	670	146,498
2020-21	2,069	1,222	-151	-39	2.20	65	658	147,155
2021-22	2,056	1,226	-151	-39	2.20	63	641	147,796
2022-23	2,042	1,231	-151	-39	2.20	62	622	148,418
2023-24	2,027	1,235	-151	-39	2.20	61	603	149,021
2024-25	2,012	1,241	-151	-39	2.20	60	582	149,603
2025-26	2,000	1,248	-151	-39	2.20	59	562	150,165
2026-27	1,988	1,257	-151	-39	2.21	58	542	150,707
2027-28	1,979	1,269	-151	-39	2.21	57	521	151,228
2028-29	1,973	1,278	-151	-39	2.21	56	506	151,734
2029-30	1,969	1,289	-151	-39	2.21	56	491	152,225
2030-31	1,968	1,301	-151	-39	2.21	55	477	152,702
2031-32	1,969	1,314	-151	-39	2.21	54	466	153,168
2032-33	1,974	1,330	-151	-39	2.21	54	455	153,623

(a) Yn cyfeirio at ddiwyddiadau rhwng 1^{af} Gorffennaf blwyddyn y a 30^{ain} Mehefin blwyddyn y+1.

Prif Bwyntiau:

- Rhagwelir y bydd cyfradd genedigaethau yng Nghasnewydd yn cynyddu hyd at 2018/19 gan gyrraedd 2,080, cyn gostwng o'r pwynt hwn hyd at 2030/31, ac yna cynyddu ychydig yn nwy flynedd olaf cyfnod yr amcanestyniad. Nifer y menywod o oed lefel ffrwythlondeb uchel (25-34) yng Nghasnewydd sy'n gyfrifol am batrwm y genedigaethau yng Nghasnewydd, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu o 7,600 yng nghanol 2008 i 10,100 yng nghanol 2020. Bydd hyn yn golygu cynnydd ar y dechrau yn nifer y genedigaethau, cyn gostwng dros weddill cyfnod yr amcanestyniad i 8,600 yng nghanol 2033 a rhagwelir y bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y genedigaethau.
- Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghasnewydd yn gostwng hyd at oddeutu 2018/19 gan gyrraedd 1,220, cyn cynyddu o'r pwynt hwn ymlaen, gan gyrraedd 1,330 erbyn 2032/33. Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau a welir yn y ffigurau marwolaethau: yn gyntaf, y cynnydd a ragwelir o ran disgwyliad oes (a'r gostyngiad mewn marwolaethau ym mlynedd oed cyntaf yr amcanestyniad yn sgil hynny); ac yn ail, yr effaith carfan oedran, sef os bydd pobl yn byw'n hirach, bydd mwy o bobl hyn yn y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hyn (65+oed) yng Nghasnewydd yn cynyddu o 23,000 yng nghanol 2008 i 33,700 yng nghanol 2033. Mae cyfradd marwolaeth uwch ymhlith y grwpiau oedran hyn, ac yn sgil hyn rhagwelir y bydd mwy o farwolaethau.
- Rhagwelir y bydd y newid naturiol yng Nghasnewydd yn cynyddu hyd at 2018/19, gan gyrraedd 860 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau, ond o'r pwynt hwn ymlaen rhagwelir y bydd y newid naturiol yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, o ganlyniad i ragamcaniad o lai o enedigaethau a mwy o farwolaethau. Er gwaethaf y gostyngiad, erbyn 2032/33 rhagwelir y bydd y newid naturiol yn dal yn uchel ar oddeutu 640 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau. Ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad, rhagwelir y bydd yr ymfudo net cyffredinol yn negyddol, gyda 190 yn fwy o bobl yn gadael ardal yr awdurdod nag yn cyrraedd yno bob blwyddyn.

- Rhagwelir y bydd y newid net yn cynyddu hyd at oddeutu 2018/19, gan gyrraedd 670. O'r pwynt hwn ymlaen, rhagwelir y bydd y newid net yn gostwng drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad o ganlyniad i lai o newid naturiol, ond rhagwelir y bydd y newid net yn dal yn uchel erbyn 2032/33 o ganlyniad i 640 yn fwy o enedigaethau nag o farwolaethau a ragwelir yn ardal yr awdurdod lleol. Felly, y newid naturiol yng Nghasnewydd sy'n gyfrifol am y newid net gan fod yr ymfudiad net yn negyddol ym mhob blwyddyn yng nghyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiau'n unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth a sut mae maint yr effaith yn cynyddu y pellaf ymlaen yr eir i gyfnod yr amcanestyniad.

Mae amcanestyniad dim ymfudo (newid naturiol yn unig) wedi'i gynhyrchu er mwyn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol pe na bai dim mewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae amrywiolion uwch ac is o ran y boblogaeth hefyd wedi'u cynhyrchu.

Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.


Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch.

Siart 7: Amcanestyniadau Amrywiolion

Dan yr amcanestyniad newid naturiol (dim ymfudo), rhagwelir y bydd poblogaeth Casnewydd yn cynyddu 7.6 y cant o ganol 2008 i 150,300 erbyn canol 2023. Mae hyn 1,900 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn uwch (cyfradd ffrwythlondeb uchel, cyfradd marwolaeth isel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 9.3 y cant o ganol 2008 i 152,700 erbyn canol 2023. Mae hyn 4,300 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

Dan yr amrywiolyn is (cyfradd ffrwythlondeb isel, cyfradd marwolaeth uchel), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 3.3 y cant o ganol 2008 i 144,200 erbyn canol 2023. Mae hyn 4,200 yn is na'r prif amcanestyniad.



Poblogaeth ar 30^{af} Mehefin bob blwyddyn.



Gwybodaeth am Ansawdd

Gwybodaeth am Ansawdd

Darperir gwybodaeth am ansawdd drwy'r cyhoeddiad hwn. Mae detholiad o wybodaeth allweddol am ansawdd ar gael isod hefyd.

Diffiniadau

Caiff yr amcanestyniad poblogaeth ei lunio ar 30 Mehefin bob blwyddyn. Mae cydrannau'r amcanestyniad (genedigaethau, marwolaethau ac ymfudo) yn seiliedig ar gyfnod o flwyddyn (canol y flwyddyn i ganol y flwyddyn).

Newidiadau

Mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae gan y SYG raglen waith hirdymor i wella ystadegau ymfudo a phoblogaeth. Mae hyn yn golygu y caiff amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn eu newid yn rheolaidd. Cyhoeddwyd set ddiwygiedig o amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer 2002-2008 ar 13 Mai 2010.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn ar gael drwy'r ddolen isod:

www.ons.gov.uk/about-statistics/methodology-and-quality/imps/index.html

Mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru sail-2008 yn seiliedig ar yr amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig a'r amcangyfrifon ymfudo diwygiedig.

Poblogaeth Sylfaenol

Mae amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig canol 2008 wedi cael eu defnyddio fel poblogaeth sylfaenol yr amcanestyniadau hyn.

Amcangyfrifon Poblogaeth

Mae'r rhain yn seiliedig ar y trigolion arferol. Mae'r trigolion arferol sydd i ffwrdd o gartref dros dro wedi cael eu cynnwys, ond nid yw ymwelwyr wedi cael eu cynnwys. Caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad tymor. Dylid nodi hefyd y defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fewnfudwr rhyngwladol - y rheini sy'n newid eu gwlad breswyl am gyfnod o 12 mis o leiaf. Nid yw mewnudwyr dros dro (e.e. gweithwyr mudol o wledydd Dwyrain Ewrop) wedi'u cyfrif yn yr amcangyfrifon poblogaeth ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr amcanestyniadau poblogaeth.

Cyfraddau Ffrwythlondeb Penodol i Oedran (ASFR)

Mae ASFR yn cyfeirio at gyfanswm nifer y genedigaethau fesul 1,000 o fenywod o oedran penodol (cyfrifir ar gyfer menywod 15-49 oed yn unig).

Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb (TFR)

Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yw nifer cyfartalog y plant a fyddai'n cael eu geni i bob menyw os byddai menywod yn profi'r cyfraddau ffrwythlondeb penodol i'w hoedran yn y flwyddyn dan sylw drwy gydol eu cyfnod planta.

Ffrwythlondeb Lefel Adnewyddu

Ystyr hyn yw'r lefel o ffrwythlondeb sydd ei hangen i'r boblogaeth adnewyddu'i maint yn yr hirdymor gan ystyried cyfraddau marwolaeth cyson ac absenoldeb ymfudo. 2.08 yw hyn yng Nghymru a Lloegr.

Cyfraddau Marwolaeth Penodol i Oedran (ASMR)

Mae ASMR yn cyfeirio at gyfanswm nifer y marwolaethau fesul 1,000 o bobl o oedran penodol.

Cyfraddau Marwolaethau Safonol

Mae cyfraddau marwolaethau safonol yn ffordd i gymharu cyfraddau marwolaeth ar gyfer poblogaethau lle mae'r dosbarthiad oedran a rhyw yn amrywio. Mae'n cael gwared

ar unrhyw gynnydd neu ostyngiad a all fod yn ganlyniad newidiadau i strwythur oedran/rhyw y boblogaeth.

Disgwyliad oes adeg geni

Y 'disgwyliad oes' yw'r hyd oes ar gyfartaledd y byddai pobl o oedran penodol yn ei fyw pe byddent yn wynebu'r gyfradd farwolaeth ar gyfartaledd sydd wedi'i chofnodi ar gyfer y flwyddyn dan sylw trwy gydol eu bywyd.

Ymfudo Mewnol

Mae mewnfudo mewnol (neu o fewn y DU) yn cyfeirio at bobl yn symud o fewn y DU, er enghraifft o un awdurdod lleol i'r llall. Mae pob Awdurdod Iechyd yn cadw cofrestr o gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'u meddygon teulu, sef y System Data Cofrestr Cleifion (PRDS). Mae cyfuno pob cofrestr cleifion yng Nghymru a Lloegr a'u cymharu â chofrestr y flwyddyn flaenorol yn nodi pobl sydd wedi newid eu cod post. Fel rhan o brosiect y SYG i wella'r amcangyfrifon poblogaeth ac ymfudo, mae data cyfeiriad myfyrwyr yn ystod y tymor gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch wedi cael ei ymgorffori yn yr amcangyfrifon ymfudo mewnol i helpu i adnabod myfyrwyr sy'n araf o ran ailgofrestru â meddygfa wrth symud i brifysgol.

Ymfudo Rhyngwladol

Mae Ymfudo Rhyngwladol yn cyfeirio at bobl sy'n symud i wledydd y tu allan i'r DU, neu bobl sy'n symud i'r DU. Defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fewnfudwr rhyngwladol - sef y rheini sy'n newid eu gwlad breswyl am gyfnod o 12 mis o leiaf. Amcangyfrifir symudiadau ymfudo rhyngwladol drwy gyfuno data o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS), data'r Swyddfa Gartref ar geiswyr lloches a throsglwyddiadau ymwelwyr, ynghyd ag amcangyfrifon ymfudo rhwng Gweriniaeth Iwerddon a Chymru o Arolwg o Lafurlu Iwerddon.

Daearyddiaeth a Ffiniau

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol, ac maent yn seiliedig ar y ffiniau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth canol 2008. Gallai data hanesyddol a ddefnyddiwyd i lunio rhagdybiaethau fod yn seiliedig ar ffiniau ychydig yn wahanol.

Amlder

Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud hyd yn hyn ynghylch pryd caiff amcanestyniadau nesaf awdurdodau lleol eu cyhoeddi. Caiff hyn ei ystyried ochr yn ochr â'r amserlen ar gyfer yr amcangyfrifon poblogaeth a'r amcanestyniadau cenedlaethol. Pan fydd ar gael, defnyddir data o Gyfrifiad 2011 i sicrhau ansawdd y fethodoldeg gyfredol. Efallai y bydd modd defnyddio data'r Cyfrifiad hefyd mewn amcanestyniadau yn y dyfodol.

Talgrynnu

Nodwch yn nhestun bob pennod fod y data poblogaeth wedi cael ei dalgrynnu i'r cant agosaf, tra bod y data genedigaethau, marwolaethau ac ymfudiad wedi eu talgrynnu i'r degfed agosaf.

Siartiau

Noder nad yw pob siart yn dechrau ar sero, felly dylid cymryd gofal pan yn gwneud cymariaethau.



Gwybodaeth Bellach

Gwybodaeth Bellach

Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol

Mae Adroddiad Cryno, taflen gyfarwyddyd a gwybodaeth bellach ar amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol sail-2008 ar gael yn:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae Adroddiad Technegol sy'n darparu gwybodaeth manwl am y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn creu amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol sail-2008 ar gael yn:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data ar gael ar StatsWales:

(Population and Migration / Population / Projections / 2008-based local authority)

www.statswales.wales.gov.uk

Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol Cymru

Mae ciwbiau data ar gael ar StatsWales:

(Population and Migration / Population / Projections / 2008-based national)

www.statswales.wales.gov.uk

Ceir gwybodaeth fanwl bellach ar wefan y SYG:

www.statistics.gov.uk/hub/index.html

Data am y Boblogaeth ac Ymfudo

Ceir gwybodaeth ar sut i gael data am y boblogaeth ac ymfudo ar dudalen thema Poblogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Amcanestyniadau Aelwydydd

Mae Adroddiad Cryno ar yr amcanestyniadau aelwydydd sail-2008 ar gael ar:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae gwybodaeth am yr amcanestyniadau aelwydydd Parciau Cenedlaethol sail-2006 ar gael ar:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Manylion Cyswllt

Am ymholiadau ar amcanestyniadau yr awdurdodau lleol sail-2008, neu ymholiadau cyffredinol ar ddata demograffeg, cysylltwch â:

Ystadegau Demograffi, Treftadaeth a Chydraddoldeb

Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: **stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk**

ffôn: 029 2082 5808